

DAFYDD IWAN

Cant o Ganeuon

A black and white photograph of Dafydd Iwan, a Welsh singer and guitarist. He is shown from the waist up, wearing a dark, long-sleeved shirt. He is holding an acoustic guitar and looking upwards with his mouth open as if singing. The background is dark and textured, possibly a stage backdrop. The lighting is dramatic, highlighting his face and the guitar.

Y Lolfa

DAFYDD IWAN

Cant o Ganeuon



Y Lolfa

CYNNWYS

- 1 Ac Fe Ganon Ni
- 2 A Chofiwn ei Eni Ef
- 3 Addasiad o'r Gân "Bunch of Thyme"
- 4 A Gwn Fod Popeth yn Iawn
- 5 Ai am Fod Haul yn Machlud?
- 6 Am Na Chês i Wâdd
- 7 Baled yr Hogan Eithafol
- 8 Baled y 'Welsh Not'
- 9 Bod yn Rhydd
- 10 Bryniau Bro Afallon
- 11 Cân Michael D. Jones
- 12 Cân Serch
- 13 Cân 'Steddfod '79
- 14 Cân 'Steddfod y Borth
- 15 Cân Victor Jara
- 16 Cân y Ddinas
- 17 Cân y Glöwr
- 18 Cân y Gofod
- 19 Cân y Prins
- 20 Cân yr Ysgol
- 21 Cân y Western Mail
- 22 Caradog y Cawr
- 23 Cariad
- 24 Carlo
- 25 Cerddwn Ymlaen
- 26 Ciosg Talysarn
- 27 Ciywl O Ciyw fy Nghri, F'anwylyd
- 28 Creadur Bach o Grwydryn
- 29 Croeso Chwedeg Nain
- 30 Chwarae â 'Nghalon
- 31 Daw, Fe Ddaw yr Awr
- 32 Dewch i Lan y Môr
- 33 Dim ond Un Gân
- 34 Dos F'anwylyd

- 35 Dyffryn Lliw
- 36 Dyn Oedd yr Iesu
- 37 "Eifionydd"
- 38 Ffwdl da-da-da
- 39 Gad fi'n Llonydd
- 40 Geiriau ar alaw "Forty Shades of Green"
- 41 Glyn y Rhosyn
- 42 Gorau Cymro, Cymro Oddi Cartref
- 43 Hyn Sydd yn Ofid Im
- 44 I'r Gad!
- 45 I Twm yng Ngharchar
- 46 Llygod
- 47 Mae Geneth Fach yng Nghymru
- 48 Mae 'Nghalon i ar Dorri
- 49 Mae Hiraeth yn fy Nghalon
- 50 Mae 'Na Le yn Tŷ Ni
- 51 Mae'n Disgwyl
- 52 Maen Nhw'n Paratoi at Ryfel
- 53 Mae'n Wlad i Mi
- 54 Mae'r Cyfan yn Eiddo i Harold
- 55 Mae'r Darnau yn Disgyn i'w Lle
- 56 Mae'r Llencyn yn y Jél
- 57 Mae Rhywun yn y Carchar
- 58 Mae yn Hwyr Brynhawn
- 59 Magi Thatcher
- 60 Mair Paid ag Wylo Mwy
- 61 Mam Wnaeth Gôt i Mi
- 62 Mari Fawr Trelech
- 63 Mari Malw
- 64 Meddwl Amdanat Ti
- 65 Mefus ar dy Wefus
- 66 Merch y Mynydd
- 67 Mr Tomos, Os Gwelwch chi'n Dda
- 68 Myn Duw mi a Wn y Daw

- 69 Mynd yn Ôl
- 70 Pam Fod Eira'n Wyn?
- 71 Pan glywaf Gân y Clychau
- 72 Parodi ar 'Hon'
- 73 Peidiwch Gofyn imi Ddangos fy Ochr
- 74 Peintio'r Byd yn Wyrdd
- 75 Rwy'n Gweld y Dydd
- 76 Sam
- 77 Siarad â Ti a Mi
- 78 Sion a Sian
- 79 Stôl i Ddau
- 80 Sul y Blodau
- 81 Tedi Nos Da
- 82 Tyrd am Dro Hyd y-Llwybr Troed
- 83 Tyrd am Dro i'r Coed
- 84 Tyrd yn Ddi-oed
- 85 Tywysog Tangnefedd
- 86 Weithiau Bydd y Fflam
- 87 Wel di Gymru?
- 88 Wrth Feddwl am Fy Nghymru
- 89 Wylaf fil o Ddagrau
- 90 Wyt ti'n Cofio
- 91 Y Blewyn Gwyn
- 92 Y Chwe Chant a Naw
- 93 Y Dref a Gerais i Gynt
- 94 Y Dyn Pwysig
- 95 Yma Mae 'Nghalon
- 96 Yno yr Wylodd Efe
- 97 Ynys yr Hud
- 98 Y Pedwar Cae
- 99 Yr Hawl i Fyw Mewn Hedd
- 100 Y 'Steddfod Bei-ling
- 101 Y Wên na Phyla Amser

Argraffiad cyntaf: Awst 1982

© Cyhoeddiadau Sain 1982

Sylwch fod hawlfraint ar yr holl geneuon yn y llyfr hwn ac nad oes hawl i'w hatgynhyrchu trwy unrhyw ddull, nac i'w darlledu na'u recordio, heb gytundeb ysgrifenedig Cyhoeddiadau Sain ymlaen llaw.

Rhif Llyfr Safonol Rhyngwladol:
0 86243 033 X

Y Lolfa

Argraffwyd a chyhoeddwyd yng Nghymru gan Y Lolfa Cyf., Talybont, Ceredigion SY24 5HE ffôn Talybont (097086) 304.

RHAGAIR

Cyfansoddwyd y caneuon hyn dros gyfnod o bron i ugain mlynedd, er ei bod yn anodd gennyf gredu hynny! Mae cyfnod Glanllyn, dyddiau coleg ac ymgyrchoedd cyntaf Cymdeithas yr Iaith i gyd fel pe baent newydd ddigwydd ddoe. Bu'n ugain mlynedd hyfyrd iawn yn fy hanes, ac yn ugain mlynedd cyffrous yn hanes Cymru. Gwelsom genedl yn deffro, yn codi ar ei thraed, yn dechrau cerdded, yn baglu a disgyn ar ei thin, ac yn codi drachefn. Cawsom flas chwyldro ac ambell gip ar Fro Afallon, llifodd dagrau llawenydd a dagrau siom, dysgwyd sawl gwers galed a dechreuodd cenedlaetholdeb Cymru aeddfedu a magu gewynnau. Gwelwyd cannoedd o fechgyn a merched Cymru yng ngharchar am eu bod yn Gymry heb gywilydd o'r ffaith, a gwelwyd craciau'n ymddangos yn y drefn Brydeinig yng Nghymru, ac ambell gastell Seisnig yn dymchwel. Bu'r daith yn droellog, weithiau'n ddifyr, weithiau'n llethol; disgynnodd sawl un ar fin y ffordd, a bu'n rhaid i rai dalu pris rhy uchel. Erys y taegog, y crafwr a'r bradwr, ac y mae ffordd bell eto i fynd.

Caneuon y daith yw'r rhain, yn adlewyrchu asbri'r frwydr a hwyl y gyfeddach, y troeon trwstan a'r munudau mawr. Mae ambell un yn ceisio dweud rhywbeth go fawr, ac ambell un yn dweud fawr ddim. Nid wyf yn ymddiheuro am yr ystrydebau a'r hen drawiadau; mae'n rhaid i ganwr wrth dipyn o'r rheiny er mwyn medru taro weithiau ar ambell i linell wreiddiol! Fy ngobaith yw fod ambell i fflach fel yna mewn ambell i gân i bob un ohonoch. Mae'r wefr o'u canu yn para o hyd, mae'n dda gen i ddweud.

Wrth gyflwyno'r casgliad hwn —sy'n gyflawn ar wahân i ddafad golledig neu ddwy a ddiplannodd o gof a chadw am byth— rhaid imi ddiolch i'r rhai sydd wedi rhoi bywyd i'r caneuon dros yr ugain mlynedd hyn. Rhaid wrth eiriau ac alaw a chanwr, oes, ond yn benaf oll rhaid wrth gynulleidfa. Am wrando, am ymateb ac am ymuno ymuno yn y gytgan o dro i dro, mae fy nyled a'm diolch ichwi'n fawr —a daliwch ati!

Am wneud y gyfrol hon yn bosib, diolchaf i Robot am swnian ac am eistedd arnaf, i Falyri am ei llafur a'i hir amynedd, i'r ffotograffwyr am y lluniau, ac i'r Lolfa am eu crefft.

Gan fod bod yn briod neu'n blant i dipyn o drwbadr yn gallu bod yn ochwyl diflas ac unig, cyflwynaf y gyfrol i Marion, Llion, Eiliw a Telor.

Dafydd Iwan

1 Ac Fe Ganon Ni

- 1 Aeth y coliar i berfedd y ddaear
Ar ei bedwar mewn twyllwch a llaid
I geibio'r glo o'r wythien
Yn ddi-gwyn am mai hynny oedd raid
Aeth y llwch i gilfachau'i ysgyfaint
Aeth ei gamau yn fyrrach bob dydd
Colodd ei frwydr a'r tyle
Ac fe'i rhoddwyd e'n ôl yn y pridd
Ac fe ganon ni "O Fryniau Caersalem"
Ac fe ganon ni "Mae 'Nhad wrth y Llyw".
- 2 Gadawai'r chwarelwr ei dyddyn
'Nôl ei arfer cyn toriad y wawr
I hongian ar raff uwch y dibyn
Fel pendil ar y clogwyn mawr
Bargen sâl oedd ei fargen
Er iddo feithrin pob hollt yn y graig
Amddifad ei bedwar plentyn
A gweddw anhymig ei wraig
Ac fe ganon ni "O Sanctaidd Ddiddanydd"
Ac fe ganon ni "Mae 'Nhad wrth y Llyw".
- 3 Roedd perchennog y lofa yn Llundain
Yn byw ar ei gyfoeth yn fras
Ac arglwydd y stad a'r chwareli
Fel brenin y fro yn ei blas
Ac os deuent ar dro yn eu cerbyd
A chwrd â'r gwerinwyr ar hap
Roedd disgwyl i'r wraig foesymgrymu
A'r gwr yntau gyffwrdd ei gap
Ac fe ganon ni "Rule Britannia"
Ac fe ganon ni "God Save the Queen"
- 4 Wyt ti'n cofio Streic Fawr y Penrhyn
Wyt ti'n cofio'r Tridegau fy nhad?
Ceginau cawl yn y Rhondda
A'r miloedd yn gadael eu gwlad?
Wyt ti'n cofio'r cwmp yn y chwarel
A'r beddau ym mynwent y Llan?
Wyt ti'n cofio Senghennydd a Gresford
A'r Angau yn Aberfan?
Ac fe ganon ni "O Fryniau Caersalem"
Ac fe ganon ni "Mae 'Nhad Wrth y Llyw".
- 5 Aeth meibion chwarelwyr a glowyr
I ymladd dros "Frenin a Gwlad"
Dros "Ryddid y Gwledydd Bychain"
Yr aethant, y dewrion, i'r gad
Tywalltwyd breuddwydion i'r ffosydd
A gwaed y diniwed i'r llaid
A dychwelodd y gweddill i'r chwarel
A'r lofa am mai hynny oedd raid
Ac fe ganon ni "Rule Britannia"
Ac fe ganon ni "God Save the Queen".
- 6 Mae tawelwch yng Nghwm Tryweryn
A llonydd yw wyneb y dŵr
Does na neb yn gwarchod yr argae
Na gwyliwr mwy ar y tŵr
Mae glaswellt ar domen y chwarel
A choed ar y tipje glo
Ond all dŵr na glaswellt na choedwig
Fyth guddio y graith yn y co
a Ac fe ganon ni
Ac fe ganon ni
Ac fe ganon ni . . .

2 A Chofiwn ei Eni Ef

- 1 Cofiwn y preseb a'r gwely'n y gwair
Cofiwn y baban a anwyd i Mair
Cofiwn ei fywyd a chofiwn ei Air
A chofiwn ei eni Ef.
- 2 Mae'r goeden Nadolig a'r hosan yn llawn
A brigau'r gelynnen yn goch gan y grawn
Ar ddydd gwyl yr Iesu cyd-ganu a wnawn
A chofiwn ei eni Ef.
- 3 Gwefusau yr afon wedi cloi yn dynn,
Pibonwy dan y bargod a rhew ar y llyn,
Yr eira yn gorwedd fel cwrlid mawr gwyn
A chofiwn ei eni Ef.
- 4 Mae'r teulu'n barod ar gyfer y wledd
A'r milwr yntau yn gweinio ei gledd
Ar draws pum cyfandir ceir ennyd o hedd
I gofio ei eni Ef.

3 Addasiad o'r gân "Bunch of Thyme"

Mae traddodiad hen yn cysylltu'r teim â morwyndod merch; arferai merch ifanc wisgo sbrigyn o deim i ddangos ei bod yn dal yn ddiwair . . .

- 1 Gwrandewch chwi ferched teg o bryd
Ym mlodau eich ieuenctid hardd,
O clywch eiriau 'nghân, boed eich dyddiau i gyd yn lân
Rhag colli dail y teim o'ch gardd.
- 2 Mae dail y teim yn drysor drud
Mae dail y teim yn werth y byd,
Eu llawenydd sy mor chwerw, eu tristwch fel y mêl
Rhaid gwarchod dail y teim o hyd.
- 3 Mi gofïaf ferch a thusw teim
Nad oedd am wywo tra fai byw,
Ond daeth morwr ifanc heibio, gan addo bod yn driw,
A dwyn a wnaeth y teim am byth.
- 4 Fe roddodd iddi rosyn gwyn
Nad oedd am wywo tra fai byw,
I gofio am y morwr addawodd fod yn driw
A ddaeth i ddwyn y teim am byth.
- 5 Ond gwywo wnaeth y rhosyn gwyn
A'r rhos a wywodd ar ei gwedd;
A phan ddaeth y morwr adre, fe welodd drwy ei ddagre
Y teim yn tyfu ar ei bedd.

Alaw draddodiadol

Ar record Dafydd Iwan ac Ar Log, "Rhwng Hwyl a Thaith" – Sain 1252M

4 A Gwn Fod Popeth yn Iawn

Musical notation for the song 'A Gwn Fod Popeth yn Iawn'. The score is written on four staves in 4/4 time. The key signature has one flat (Bb). The notes and chords are as follows:


- Staff 1: F, C, Dm, Bb, F, C
- Staff 2: F, C, Dm, G, C, F7
- Staff 3: Bb, G, F
- Staff 4: Dm, Bb, F, C, F

1 Rwy'n dechrau colli 'mynedd â Chymru
Llond gwlad o daeogion a chrach,
Rwy'n dechrau cael llond bola ar Walia
Pysgod mawr mewn llynnoedd bach,
Ond daw Wyn a Delwyn i adfer y ffydd
A Kinnock ac Abse fel golau ddydd
I'n hachub ni rhag y Gymru rydd
A gwn fod popeth yn iawn.

2 Rwy' wedi colli gafael ar bethe
Ac yn meddwl fod y cyfan ar ben,
Y gynghanedd yn chwalu yn ufflon
Alawon gwerin fel lludw yn fy mhen,
Ond daw Keith a Niclas i'n codi i'r lan
Fel pâr o fagle i gynnal y gwan,
A symudwn yn hwylus o fan i fan
A gwn fod popeth yn iawn.

3 Mae diwylliant yn stwmp yn fy stumog
A cherdd dant yn dechre mynd yn fwrn,
Eisteddfod yn codi cyfog,
A Lloyd George yn codi i ddwrn,
Ond daw Magi Thatcher fel awel iach
I dorri'r gwastraff o Gymru fach
I'n hachub ni rhag chwyddiant a strach
A gwn fod popeth yn iawn.

4 Os digwydd i'r Cymry wallgofi
A chrefu am ryddid i'w gwlad
Fe godith ryw arwr o Dori
A daw Kinnock ac Abse i'r gad
I gnocio sens i'n penne bach dwl,
A'n cadw'n deymgar i'r hen John Bull,
Cawn dynnu'r dŵl a mynd i Istanbul
A gwn y bydd popeth yn iawn.



5 Ai am Fod Haul yn Machlud?

Yn araf

Ai am fod haul yn ma-chlud mae
 dei - gryn ym llo - gi fy ngrudd? Neu
 ai am fod nos yn by - gwth - rhai ter - yn ac an - tur y
 dydd? Neu ai am fod oâr y goed - wig - yn di -
 tew - i a mynd yn fud? Neu ai am i ryw - un fy
 nged - ael rwyf in - neu mor un - ig fy mynd?

2 Ai am fod golau'r lleud
 Yn oer ar ruddiau'r nos?
 Neu ai am fod oerwynt gerwin
 Yn cwyno uwch manwellt y rhos?
 Neu ai am fod cri'r gylfinir
 Yn distewi a mynd yn fud?
 Neu ai am i rywun fy ngadael
 Rwyf finnau mor dywyll fy mynd?

3 Ond os yw yr haul wedi machlud
 Mae gobaith yng ngolau'r lloer,
 A chysgod yn nwfyn y cysgodion
 I'm cadw rhag y gwyntoedd oer,
 Ac os aeth cri'r gylfinir
 Yn un â'r distawrwydd mawr,
 Mi wn y daw rhywun i gadw
 Yr oed cyn toriad y wawr.

6 Am Na Chês i Wâdd

G D7 G
 G7 C D G

- 1 Rwy'n torri 'nghalon am na ches i wâdd i'r briodas
 A Charles a minnau'n ffrindiau ers cyhad,
 Rwy wedi canu'i glod yn ffyddlon ers blynyddoedd,
 A dweud mai fe yw Cymro gorau'r byd.
- 2 Ro'n i wedi prynu dicibow'n arbennig,
 Top hat a chot dal adar cynffon fain,
 Trowsus streip a spats ac ambarelo
 Ond os na chai wâdd, beth ddiawl wna i â'r rhain?
- 3 Mae na rai di-barch sy'n chwerrthin am dy ben di,
 Ond 'jealous' yn nhw am dy fod ti'n fab i'r cwinn,
 Mae nhw'n dweud dy fod ti'n joci anobeithiol
 Dy fod ti'n amlach ar dy drwyn nac ar dy dîn.
- 4 Mae na rai sy'n dweud dy fod ti'n barasitig
 Yn byw yn fras ar gefen bois fel ni,
 Ond paid hidio dim os byth y byddi mewn angen
 Tyrd ar y ffôn fe gei di 'sub' gen i.
- 5 Mae na rai sy'n dweud nad wyt ti fawr o Gymro,
 Ond mi wn i'n iawn beth yw dy bedigrî
 Dy fod yn perthyn trwy waed i holl frenhinoedd Ewrop
 Gan gynnwys peint neu ddau o waed hogia ni.

- 6 Paid cymryd sylw o'r 'natives' sy'n protestio
Yn India bell yn Aberystwyth neu Awstralia,
A phaid hidio os yw dy ffôn yn cael ei dapio
Mae hynny'n bownd o ddigwydd i Gymro da.
- 7 Mae rhai yn dweud mai snob sy'n chwarae polo,
Ac mai ffwl sy'n hedfan yn isel mewn eroplên
Ond s'dim ots da fi be wnei di os wyt ti'n 'joio,
Ond gofala osgoi corn simne Anti Jên.
- 8 O mi roi dy lun di'n fawr ar ben y piano
Os ca'i ddod i briodas yr annwyl Ddi.
Mi ganaf gân am galon lân sy'n llawn Diana
A dyblu cytgan hyfryd Tra bo Di.
- 9 Os wyt ti Charles yn rhywle heno, yn gwrando ac yn cofio'r heniath,
Dim ots gen i am y Syr neu CBE
Fe gei di gadw'r rhain os ca'i garden fechan
I'ngwâdd i i briodas Di a thi.

7 Baled yr Hogan Eithafol

- 1 Roedd Mali yn hogan eithafol
Yn llosgi fel tân dros ei gwlad
Yn aelod brwd o Gymdeithas yr Iaith
Er gwaetha'i mam a'i thad –
Roedd hi'n hogan glên
Bob amser â gwên.
- 2 Fe beintiodd hi gant o arwyddion
Cyn ei bod hi yn bymtheg mlwydd oed
Roedd ôl y paent ar ei dillad dydd Sul
A gwyrd rhwng bodia'i thraed –
Roedd hi'n hogan glên
Bob amser â gwên.
- 3 Fe gerddodd hi mewn i'r Llythyrdy
A gofyn am ffurflen Gymraeg
Edrychodd y boi tu ôl i'r cownter yn syn
A gofyn "Be haru ti'r ddraig?" –
Er ei bod hi'n glên
Diflannodd y wên.
- 4 Gafaelodd yn dynn yn ei goler
A sibrd "Wel yli di mêt
Ti'n lwcus mod i'n hogan ddi-drais
Neu mi caet ti hi gen i'n strêt" –
Roedd hi'n hogan glên
Bob amser â gwên.
- 5 Roedd hi'n ddawnus dros ben efo'r spaners
Fel tae hi'n fecanic o'r crud
Tynnodd dri chant o arwyddion mawr
Rhwng St Clêrs a Phorthyrhyd –
O roedd hi'n hogan glên
Bob amser â gwên.



- 6 Fe'i restiwyd hi wrth ymyl Dolgellau
A sbaner a lli yn ei cheg
Ond ddwedodd hi ddim byd cas wrth y glas
Na hyd yn oed awgrym o reg –
O roedd hi'n hogan glên
Bob amser â gwên.
- 7 Fe'i llusgwyd o flaen yr ynadon
Fel tae hi yn lofrudd o'r crud
Fe'i cyhuddwyd o ladrad, brad a thrais
Ac o beryglu dyfodol y byd –
A hithau'n hogan glên
Bob amser â gwên.
- 8 A Mali ddaeth allan o'r carchar
A'i ffydd hi heb sigo'r un iot
Aeth lawr i farina newydd y Sais
Fe suddodd bedair iot (y blydi lot) –
Ond roedd hi'n dal yn glên
Bob amser â gwên.

- 9 Fe ddringodd i ben mast deledu
Cafodd ddamwain wrth ddringo i lawr
Daliwyd hi wrth gornel leining ei phais
Bu'n hongian am bedair awr
Ond ni chiliodd y wên –
Roedd hi'n hogan mor glên.
- 10 Eisteddodd mewn tai haf wrth y dwsin
Fe'i llusgwyd hi i ganol y stryd
Fe'i lluchiwyd hi unwaith drwy ffenest y llofft
Ond doedd hynny ond megis dim byd
I'r hen hogan glên
Oedd bob amser â gwên.
- 11 Rhyw ddiwrnod fe briododd 'rhen Fali
A chafodd dri neu bedwar o blant
Diflannodd yn sydyn o faes y gad
Ond bydd yn rebel nes bydd hi'n gant
Ac fe gofir y wên
A'r hen hogan fach glên.

8 Baled y 'Welsh Not'

- 1 Aeth bachgen bach o'i gartref llwm
Un dydd o haf hyd lôn y cwm
Lawr i'r ysgol yn y llan
'Rôl dweud ffarwel wrth ei dad a'i fam.
- 2 Yr iaith Gymraeg oedd ei unig iaith
A hon siaradai ar ei daith,
Fe wyddai enwau'r blodau bach,
'Roedd yn blentyn yr haul a'r awyr iach.
- 3 Canai hwiangerddi ei wlad
A glywsai gan ei fam a'i dad,
Adnodau fyrdd oedd ar ei go',
O'r Beibl Mawr nad oedd byth dan glo.
- 4 Ond seiniau'r gloch draw yn y llan
A alwai arno ef i'r fan,
A phan gaeodd drws yr ysgol fach
Caewyd allan yr haul a'r awyr iach.
- 5 "No Welsh in here" oedd geiriau'r sgŵl
A dicter brad yn ei lygaid pŵl,
Ond ni ddeallai'r bachgen bach
A anwyd i'r haul a'r awyr iach.
- 6 Dylifai'r geiriau Saesneg bras
O enau rhwth y sgwlyn cas,
A gofyn wnaeth y bachgen bach
'Gai fynd i'r haul a'r awyr iach?'
- 7 Edrychodd pawb wrth glywed hyn
Ar ei wyneb llwyd yn un dyrfa syn,
'He spoke in Welsh,' meddai'r llais o draw.
Trywanwyd ei fron gan ergyd braw!
- 8 Fe'i llusgwyd ef hyd y llawr fel sach
Plentyn yr haul a'r awyr iach,
Gerfydd ei wallt fe godwyd ei ben
Ac am ei wddf crogwyd darn o bren.
- 9 'Roedd dwy lythyren ar y pren,
Llythrennau'r Sais, sef "W.N."
Yn crogi am wddf y bachgen bach
A anwyd i'r haul a'r awyr iach.
- 10 Ar derfyn dydd fe'i curwyd ef
A chlywyd gwae ei grio ef
Yn atsain o amgylch y bwthyn bach,
Rhwing creigiau'r haul a'r awyr iach.
- 11 Mae'r plentyn bach yn awr mewn hedd
Yn huno mewn tragwyddol fedd,
Ond mae'r darn o bren a'r llythrennau du
Yn crogi am wddf dy enaid di!

9 Bod yn Rhydd

Musical notation for 'Bod yn Rhydd' in 4/4 time, G major. The score consists of three staves. The first staff has chords C, C7, and F. The second staff has chords C, G7, F, C, and C7, with the word 'Cytgan' written above. The third staff has chords F, G, F, and C.

1 Rwy' wedi penderfynu,
A da o beth yw hynny,
Rwy' wedi penderfynu bod yn rhydd,
Bod yn rhydd, bod yn rhydd,
Rwy' wedi penderfynu bod yn rhydd.

2 Rwy' wedi cael llond bola
Ar fod yn Gymro tila,
Rwy' wedi penderfynu bod yn rhydd,
Bod yn rhydd, bod yn rhydd,
Rwy' wedi penderfynu bod yn rhydd.

Cytgan: Ac mi ddawnsiaf ddawns y Gymru Rydd,
Mi ganaf gân y Gymru Rydd
Ac rwy'n yfed i doriad yr hyfryd ddydd,
Y dydd y bydd pob Cymro'n rhydd!

3 Rwy' wedi cael hen ddigon
Ar fod yn Gymro bodlon,
O hyn ymlaen rwyf eisiau bod yn rhydd,
Bod yn rhydd, bod yn rhydd,
Rwy' wedi penderfynu bod yn rhydd.

4 Mae 'nghalon wedi blino
Ar fod yn hanner Cymro,
O hyn ymlaen rwy'n dechrau bod yn rhydd,
Bod yn rhydd, bod yn rhydd,
Rwy' wedi penderfynu bod yn rhydd!

10 Bryniau Bro Afallon

Yn gymhedral ond bywiog (Moderato Vivo)

Musical notation for 'Bryniau Bro Afallon' in 4/4 time, G major. The score consists of ten staves. The first staff has chords E and A. The second staff has chords E and A. The third staff has chords B7 and E7. The fourth staff has chords A and E. The fifth staff has chords A and E. The sixth staff has chords B7 and E7. The seventh staff has chords A and E. The eighth staff has chords A and E. The ninth staff has chords B7 and E7. The tenth staff has chords E and B7. The lyrics are written below the notes. The word 'Araf (Adagio)' is written above the eighth staff, and 'Mewn canser (a tempo)' is written above the tenth staff.

2 Ar Fryniau Bro Afallon
 Mae pawb yn siarad Cymraeg
 'Llythyrdy' ar ddrws pob Swyddfa Bost
 Does dim sôn am 'Dafod y Ddraig',
 Mae'r enwade i gyd wedi uno
 A'r siop e'n gwerthu popeth am ddim
 O! bois rhaid mynd am dro ...

3 Ar Fryniau Bro Afallon
 Mae pawb yn rhoi fôt i'r Blaid
 Y Toris yn colli'u 'deposit' o hyd
 A Llafur yn llyfu'r llaid,
 Mae'r Steddfod yn para am fisoedd
 A deg noson lawen bob nos
 O! bois rhaid mynd am dro ...

11 Cân Michael D. Jones

1 Fe welaist ti y cancr yn cychwyn yn y gwraidd,
 Rhybuddiaist y bugeiliaid i warchod rhag y blaidd,
 Dinoethaist frad y taeg a'r Sais --adolwyr trist,
 Dangosaist nad un meddal, diberfedd ydoedd Crist.

Cytgan: Cefaist weledigaeth, breuddwydiaist freuddwyd mawr,
 A gwelaist werin Cymru yn codi o'r llawr.

2 Fe welaist ti mai'r heniaith yw perl ein pobl ni,
 A cham a threfn dynoliaeth yw ei diarddel hi,
 Fflangellaist y Dic Shôn Dafydd am wadu iaith ei wlad,
 Dimygaist y mân-bwysigion am sarnu dy dreftad.

Cytgan

3 O ganol gormes creulon ar werin Cymru dlawd,
 Fe gyrchaist yr Afallon yn gartref i dy frawd,
 Gliried dy weledigaeth, gadarned oedd dy ffydd,
 Sefydlwyd ar dir estron y Gymru newydd rydd.

Cytgan

Cydiwn yn dy freuddwyd, a chofiw'n dy neges di
 A chodw'n y Gymru newydd ar ddaear ein Cymru ni.

12 Cân Serch

Musical notation for 'Cân Serch' in G major (one sharp) and 6/8 time. The notation consists of four staves of music. Above the first staff are chords E, A E, B7, and E. Above the second staff are chords A E, B7, A, and E. Above the third staff are chords A, B7, E, A E, and B7. Above the fourth staff is the chord E.

1 Eheda yn isel f'anwylid
 I warchod 'rhen Walia wen,
 Eheda yn isel f'anwylid
 Na hidia y cur yn fy mhen
 Eheda yn isel f'anwylid,
 Ond gwylia fast Nebo 'rhen chwaer
 Byddai'n resyn dy weld ti yn dipia
 Yn llanast o fama i Gaer.

2 Eheda yn isel f'anwylid
 Dros bentra bach Penygroes,
 Mae'n dda fod na rywun i warchod
 Ein treftadaeth, diwylliant am oes,
 Eheda yn isel f'anwylid
 A gyrra'r holl fuchod o'u co.
 Os digwydd i un fuwch erthylu
 Be 'di hynny ond colli llo.

3 Eheda yn isel f'anwlyd
 Mae dy sŵn yn cynhyrfu fy ngwaed
 Yn ei yrru ar ras drwy 'ngwythiennau
 A chynhesu bodiau fy nhraed
 Eheda yn isel f'anwlyd,
 I gadw'r hen Brydain yn fawr,
 Mae'n werth talu miliwn o bunnau
 I dy gadw am hanner awr.

4 Eheda yn isel f'anwlyd
 I dorri ar heddwch ein gwlad,
 I'n hatgoffa fod rhyfel yn ymyl
 A bod angen pob un yn y gad.
 Eheda yn isel f'anwlyd
 I ddychryn 'rhen 'Russians' o'u crwyn,
 A'u gyrru ar chwâl ac ar wasgar
 Fel y gyrru di'r defaid a'r ŵyn.

5 Eheda yn isel f'anwlyd
 A brysia i ddod yn ôl,
 Mae'n llonni fy nghalon i weled
 Dy gysgod ar gaeau y ddôl.
 Eheda yn isel f'anwlyd
 Na hidia y cur yn fy mhen,
 Eheda yn isel f'anwlyd
 I warchod 'rhen Walia wen.

13 Cân 'Steddfod '79

- 1 Dewch heibio i Lyn y Gadair ar eich taith,
 Cewch weld amlinell lom y moelni maith.
 Ni fydd cwmwl ar y Wyddfa,
 Bydd heulwen a bydd hindda
 Yn eich aros pan ddewch yma ar eich taith.
- 2 Ewch draw i ddinas Dinlle i sŵn y môr,
 Bydd yr adar yng nghoed Alun yn rhoi encôr,
 Ewch heibio i wal Glynllifon
 I weld gogoniant Arfon
 Yng ngwlad y Mabinogion ger y môr.

Cyngan: Dewch draw i dref Caernarfon yn '79,
 Dewch draw i lan y Fenai, haul neu law,
 Bydd y croeso yma'n gynnes,
 A'r Wyddfa, fel brenhines.
 Canwn gân yr ernes, O dewch draw!

3 Bydd Ysgubor Goch yn dathlu dros yr ŵyl,
 A'r castell yntau'n gwegian yn yr hwyl.
 Bydd Seiont, Afon Gwyrfa
 Peris a hithau'r Fenai
 Yn dawnsio rhwng eu glannau dros yr ŵyl.

4 Bydd Bethel a Phenygroes yn cadw gwyl,
 Nantlle a Chwm y Glo yn codi hwyl
 Llanberis a Llanllyfni,
 Deiniolen, Felinheli,
 Llanrug, Waunfawr, Pontllyfni yn yr ŵyl.

Cyngan

5 Daw'r Cymry i gyd i dramwy lawr stryd Llyn,
 Bydd pob cilfach ar y maes wedi'i bacio'n dynn,
 Pob tafarn a phob gwesty
 Pob capel a phob festri
 Yn llawn o gân ac asbri, gyda hyn.

6 Os collwyd y pafiliwn mawr o'r dre
 Daeth un arall yma'n fuan yn ei le,
 Os costiodd o filiynau,
 Yn rhwydd fe ddwedwn innau
 Y bydd o'n werth pob dimau, pan ddaw i'r dre.

Cyngan

14 Cân 'Steddfod y Borth

Cyngan:

Croesi'r bont yn un haid,
 Mynd ar droed os bydd raid
 Deian, Loli a Taid
 Yn un garfan ddi-baid
 I Eisteddfod y Borth

1 Aeth y gaeaf dros go,
 Daeth Mehefin i'n bro
 Mae pawb 'nawr yn sôn
 Am fynd draw i Sir Fôn,
 Cawn weld y ddau lew
 Rhai tew heb ddim blew
 Un 'r ochr yma
 A'r llall 'r ochr drew.

2 Fe lenwir y ffyrdd
 Gan 'Steddfodwyr yr Urdd,
 Ac arwain pob lôn
 I'r fam-ynys Môn.
 Cawn adrodd a chân
 Hyd yr oriau mân
 Fe gawn hwyl, dawns a sbri
 Môn, Menai a mi.

15 Cân Victor Jara

Am C Em Am C Em Am C Am C

Am C G E7 Am E7 Am

- | | |
|--|--|
| <p>1 Yn Santiago yn saith-deg-tri
Canodd ei gân drwy'r oriau du,
Canodd ei gân yn stadiwm y trais,
Heriodd y gynnuau â'i gitâr a'i lais
Yn Santiago yn saith-deg-tri.</p> <p>2 Yn Santiago yn saith-deg-tri
Canodd ei gân yn yr oriau du,
Canodd am ormes ar weithiwr tlawd
A'r llofrudd Ffasgaidd a laddodd ei frawd
Yn Santiago yn saith-deg-tri.</p> <p>5 Mae cân Victor Jara i'w chlywedd o hyd
Yn atsain yn uchel drwy wledydd y byd.
Fe erys y Ffasgwyr, erys y trais
Ond gwrando mae'r bobol am alwad ei lais
Yn Santiago ein dyddiau ni.</p> | <p>3 Yn Santiago yn saith-deg-tri
Canodd ei gân drwy'r oriau du,
Torrwyd ei ddwylo i atal y gân
Ond dâlodd i ganu, a'i enaid ar dân,
Yn Santiago yn saith-deg-tri.</p> <p>4 Yn Santiago yn saith-deg-tri
Gwelodd Victor Jara yr oriau du,
Poenydiwyd ei gorff gan anifail o ddyn,
Fe'i saethwyd am iddo garu ei bobol ei hun
Yn Santiago yn saith-deg-tri.</p> |
|--|--|

16 Cân y Ddinas

doh E m E m m s s s E7 d d A d d d r d E m m

Mae'r nos yn ddu yn y ddi-nas, A'r glaw yn ty-wallt i lawr. Y

dyr-fa yn gwau o'm cwm-pas, Ac i'm bli-no daw un-ig-rwydd mawr. Cytgan Ond

waeth gen i ddim mo'r twy-llwch, Waeth gen i ddim mo'r glaw.

Waeth gen i ddim mo'r ddi-nas ddu dim ond i-mi gael cy-dio'n dy law.

- 2 Rwy'n cerdded ar hyd yr heolydd
A'r palmant di-liw dan fy nghroed
A chofiaf am lwybr fy nghartref
A'r glaswellt ir dan y coed.
- 3 Mae'r traiffig a'i ruther didostur
Yn wallgo ddiddiwedd ei hynt
A chofiaf am afon fy nghartref
A'i chân fel murmur y gwynt.
- 4 Bum ganwaith yn cerdded y ddinas
Fel deilen ar wyneb y lli
Heb ddim ond fy hiraeth yn gwmmi
Ond heno'r wyt ti gyda mi.

Cytgan ola: A waeth gen i ddim mo'r tywyllwch,
Waeth gen i ddim mo'r glaw,
Waeth gen i ddim mo'r ddinas ddu
Dim ond i mi gael cydio'n dy law.

17 Cân y Glöwr

Yn gynghedol (Moderato)

Fe ger - dda'r he - nwr yn a - raf i
 lawr hyd be - al y cwm,
 Hei - buo i'r estyd lle bu'n chwa - rae gnt ond.
 he - ddiw yn un - ig a llwm.

- 2 Roedd creithiau'r glo ar ei dalcen
 A chym y pwll ar ei law
 Ac wrth iddo gerdded hyd lwybr y gwaith
 Fe glywai rhyw leisiau o draw.
- 3 Fe glywai leisiau y glöwyr
 Wrth weithio yn nhywyllwch y ffâs
 Alun Ty Canol a'i denor mor fwyn
 A Tomos yn cyd-ganu'r bas.
- 4 Fe gofiai am hwyl yr hen ddyddie
 Pan oedd bywyd y cwm yn ei fri,
 Fe gofiai y capel a'r llyfrgell yn llawn
 Lle heddiw does ond dau neu dri.
- 5 A heno mae Tomos ac Alun
 Yn naear y fynwent ill dau
 A does dim ar ôl yn awr i'r hen ŵr
 Ond atgofion, a phwll wedi cau.

18 Cân y Gofod

G C Am D G
 C Am D G

- 1 O mi garwn fynd am dro i'r gofod
 O mi garwn fynd am dro i'r gofod
 O mi garwn fynd am dro i'r gofod
 I weld y bobl bach mewn dillad aur.
- 2 O mi garwn fynd am drip i'r lleuad (3)
 I neidio ugain llath i'r awyr fry.
- 3 O mi garwn fynd ar sgawt i Sadwrn (3)
 A gweled rhyfeddodau hardd y sêr.
- 4 O mi garwn fynd ar wib mewn llong ofod (3)
 A throedio'r llwybr laethog wrth fy modd.
- 5 O mi garwn wisgo siwt gofodwr (3)
 A mynd am wibdaith hir i blith y sêr.
- 6 O mi garwn fynd am dro i'r gofod (3)
 Dim ond os cawn i ddod i Gymru'n ôl.

19 Cân y Prins

- 1 I dre Caernarfon heb ymdroi
 Gyfeillion dewch yn llu,
 I weld coroni mab y Cwin
 Yn d'wysog Cymru gu.
 A diolch te am Arglwydd
 Sy â'i fynwes ddewr ar dân
 O serch angerddol atom ni,
 Drigolion gwlad y gân.

Cytgan: Dewch i gyd i Gaernarfon,
 Dewch i weiddi "hwré!"
 Dyma eilun y Cymry bois
 A dyma arwr y dre.

- 2 Wel dyma'r t'wysog abla
 Gadd Cymru 'rïoed rwy'n siwr,
 Mae'n llongwr gwell na Madog,
 Mae'n ddewrach na Glyndŵr,
 Mae'n fwy o 'sglaig na Hywel Dda
 Gyfeillion, dyna'r ffaith,
 Ond tydio'n biti nad yw'r llanc
 Yn medru gair o'n hiaith.

Cytgan

- 3 Mi fu am sbel yn Sgotland
 Mewn ysgol hogia drwg,
 Yn dysgu yfed brandi
 A dysgu llyncu mwg,
 Bob Sul cadd wersi polo
 Ar feysydd teca'r wlad,
 A dysgodd sut i regi'n ffri
 Wrth wrando ar ei dad.

Cytgan

20 Cân yr Ysgol

Yn gymedrol aml bywiog (Moderato, Vivo)

Pam oeddwn i'n rhyw flwydd neu ddwy yn iau, - A
 min-nau'n fach-gen boch-goch bach di-fal: - Mi
 awn i'r ys-gol fel pob bach-gen bach da, drwy niwl a glaw, boed
Cytgan
 ae - a neu boed ha', Ond yn yr ys-gol mi ges
 Le - saons Hi - sto - ry, Le - saons Geo - gra - phy, Le - saons Eng - lish o
 hyd ac o hyd, ac am - bell i le - saon yn
 Welsh, wna - re teg, am mai Cym - ro bach oeddwn i.

- 2 Fe alwai Mam bob bore am saith o'r gloch
 A dweud, yn Gymraeg, 'Wel cwyd os wyt am dy gig moch'
 Ac ar ôl imi godi a llyncu'r bwyd i lawr,
 Yn Gymraeg y dymunai 'Nhad a Mam 'Hwyl fawr!'

Cytgan

- 3 A chyda'r nos mi awn am dro bach i'r coed,
 Ac yno y bŵm i'n caru gynta 'r oed
 O dan y llwyni, rhois fy nghalon iddi hi,
 Ac yn Gymraeg y sibrydiais 'O rwy'n dy garu di!'

Cytgan

- 4 Ac ar y Sul, mynd i'r capel oedd fy mraint
 A darllen Beibl William Morgan yng nghwmni'r saint,
 Cymraeg siaradai yr Iesu am a wyddwn i
 A 'Mair' oedd ei fam, nid 'Mary' 'n siwr i chi.

Cytgan

21 Cân y Western Mail

Yn ffrwyg

Duh-E Pam fy - ddaf yn co - di yn y bo - re a mynd a - ti i fer - wi
 dy, a bw - rw mewn i'r ba - ra me - nyn, a chy - dio yn dynn yn fy
 llwy, pryd hyn - ny caf wle - dda wrth fwy - ta gy - da brwd - fryd - edd a llet
 wrth dder - llen y gwi - rion - e - dde yng ngho -
 lof - ne y 'Wea - tem Mail' O! rwy'n dar - llen y 'Wea - tem
 Mail', rwy'n dar - llen y 'Wea - tem Mail', rwy'n Gym - ro go - leu -
 e - dig, ac rwy'n dar - llen y 'Wea - tem Mail'.

- 2 Mae rhai yn darllen y Beibl
 Ac eraill yn darllen y Koran,
 Rhai yn darllen Tafod y Ddraig
 Ac eraill yn darllen Rhodd Mam;
 Ond pan af i groesi'r hen afon
 I wlad y flaeth a'r mêl,
 Mi fyddaf yn ddigon bodlon
 Os caf gopi bach o'r 'Western Mail'.

Cyngan

- 3 Mae tim cenedlaethol gan Gymru
I chwarae rygbi ar y cae,
Ac mae'n iawn i roi cweir i'r Saeson
Am fod calon y Cymro fan lle mae; –
Ond peidiwch â meddwl am funud
Chwi genedlaetholwyr y Bêl
Fod gwahaniaeth rhwng Cymru a Lloegr,
O 'Na! Na!' medd y 'Western Mail'.

Cyngan

- 4 Mae rhai yn leicio 'chop suey' a reis
Ac eraill yn dewis cyw iâr,
Rhowch i eraill facwn ac wy
Neu lond sosban o gafiâr,
Mae rhai yn hoff o uwdd a llymru
Rhowch i eraill dost a mêl –
Ond rhowch imi bob amser
Werth wech o 'chips' mewn 'Western Mail'.

Cyngan

- 5 Mae bois yr iaith yn creu helynt
Ynghylch iaith eu tad a'u mam,
Yn rhedeg fel fandals o gwmpas y wlad
A chwyno'u bod i gyd yn cael cam;
'O tafiwch y diawled i'r carchar!
Lluchiwch y diawled i'r jêl!
Dyna yw'r unig ateb, –
Medd llythrau neis y 'Western Mail'.

Cyngan

- 6 Pan ddaw rhyddid i'r gwledydd bychain
A phob gwlad yn chwifio'i baner ei hun,
Pob gwlad yn gwybod beth yw ei lliw
A'r cenhedloedd yn byw yn gytun,
Bryd hynny caiff Cymru hithau
Ei rhyddid, doed a ddel,
A bydd llinell neu ddwy i gofnodi'r ffaith
Mewn rhyw gornel fach o'r 'Western Mail'.

Cyngan: O! rwy'n darllen y 'Western Mail',
Darllen y 'Western Mail',
Diolch i drefn Rhagluniaseth
Mod i'n darllen y 'Western Mail'!

22 Caradog y Cawr

- 1 Mae ogof yng Nghwm-Rhyd-y-Rhosyn
Wrth droed y Bannau mawr,
A hon yw cartref Caradog
Caradog y cawr.

Cyngan: Caradog y cawr, sydd â'i wyneb bob amser yn wên.
Y cawr mwya'n y byd sy'n chwerrthin o hyd.
Caradog y cawr mawr clên.

- 2 Pan âf i am dro draw i'r Bannau
Rwy'n galw i ddweud "Helo",
Ac yna yn cuddio fy nghlustie
Iddo fynte gael bloeddio "HELO!"

Cyngan

- 3 Mi es ato rhyw ddiwrnod a gofyn
A hoffai o chwarae pêl-droed,
Fe giciodd y bêl yn reit ysgafn
Ac fe hedodd bum milltir i'r coed!

Cyngan

- 4 Os byddaf ar frys mawr rhyw adeg
Mi redaf at Ogof y Cawr,
A chaf bas fel y gwynt ar ei ysgwydd
Rhyw deirllath neu bedair o'r llawr!

Cyngan

- 5 Mae pobun yng Nghwm-Rhyd-y-Rhosyn
Yn hapus a diogel eu byd,
Am fod gynnon ni gawr mor garedig
I'n helpu a'n gwarchod i gyd.

Cyngan

23 Cariad

Dob=A A d: - : - : d d: d: - : - : t: - : - : t: t: - : - : D l: - : - : l
 Blin yw caru yma ac acw; Blin bod
 heb y blin der hwnnw, Ond o'r blin derau
 D l: - : - : d: - : - : A s: - : - : m s: s: - : - : (d) d: - : - : d d: d: - : - :
 blin af blin der, Cur ann- i- fyr ca ru'n o fer.

- 2 Bob ychydig ac ychydig
 Y mae caru merch fonheddig.
 Bob ychydig ac yn araf
 Y daw merch fonheddig fwynaf.

- 3 Caru 'mhell a charu'n agos,
 Newid cariad bob pythefnos;
 Er hyn i gyd, ni all fy nghalon
 Lai na charu'r hen gariadon.
- 4 Llawn yw'r môr o swnd a chregyn,
 Llawn yw'r wy o wyn a melyn,
 Llawn yw'r coed o ddail a blodau,
 Llawn o gariad merch wyf innau.
- 5 Maent yn dwedyd y ffordd yma
 Nad oes dim mor oer â'r eira;
 Rhais ychydig yn fy mynwes,
 Clywn yr eira gwyn yn gynnes.
- 6 O mor gynnes mynwes meinwen,
 O mor fwyn yw'r llwyn meillionen,
 O mor felys yw'r cusanau
 Gyda serch a mwynion eiriau.

24 Carlo

Mae gen i ffrind bach yn byw ym Myc-in-ham Pa-las A Char-lo Win-sor
 yw ei e-nw e, Tro dwe-tha yr es i I gno-co ar ddrws ei dŷ, Daeth ei
 fam i'r drws a me-dde hi wr-tha i: Car-lo, Car-lo, Car-lo'n wa-re po-lo
 he-ddi; Car-lo, Car-lo, Car-lo'n wa-re po-lo gy-da da-di; Ym-un-wch yn y
 gân, Dae-og-ion fawr a mân, O'r di-wedd ma gy-da ni brins yng Ngwlad y

Gân.

- 2 Fe gafodd e'i addysg yn Awstralia, do, a Sgotland
 Ac yna lan i Aberystwyth y daeth o,
 Colofn y diwylliant Cymraeg, cyfrannwr i Dafod y Ddraig,
 Aelod o'r Urdd, gwerysllwr er cyn co!
- 3 Mae'i faners e'n berffeth, fe wedith e "plis" a "thenciw",
 Dyw e byth yn cicio'i dad nac yn rhegi'i fam,
 Mae e wastad wedi cribo'i wallt, mae i goleri fe wastad yn lân,
 Dyw e byth yn pigo'i drwyn nac yn poeri i'r tân!
- 4 Bob wythnos mae e'n darllen y Cymro a'r Herald,
 Mae e'n darllen Dafydd ap Gwilym yn ei wely bob nos,
 Mae dyfodol y wlad a'r iaith yn agos at 'i galon fach e
 A ma nhw'n dweud 'i fod e'n perthyn i'r FWA!

25 Cerddwn Ymlaen

G C G C
 G C G D
 G C G
 Am C G C
 G Em D G G7 Cytgan C
 G C G C G D D7
 G

- 1 Bu'r Cymro yn cerdded y llwybrau cynefin drwy'r oesau
 Yn crafu bywoliaeth ddigysur o gaenen o bridd,
 Yn gwarchod ei fywyd wrth warchod y noethlymun erwau
 Wrth ganlyn yr arad a dilyn yr og ar y ffridd,
 Dringodd y creigiau a holltodd y llechfaen yn gywrain
 Turiodd i grombil y ddaear i geibio'r glo
 Gwnaeth gyfoeth i eraill, a gwelodd gyfeillion yn gelain
 A chyfoeth hen ffydd a hen eiriau oedd ei gyfoeth o.

Cytgan: Ond cerddwn ymlaen
 Cerddwn drwy ddŵr a thân
 Cerddwn a ffydd yn ein cân
 Ymlaen —cerddwn ymlaen.

- 2 Bu farw Llywelyn, Llyw Olaf y Cymry 'Nghilmeri
 Saith canrif yn ôl ar yr eira diferodd ei waed
 Ar bicell fe gariwyd ei ben ar hyd heolydd Llundain
 A'r dorff yn crochlefain i ddathlu'r fuddugoliaeth a gaed,
 Saith canrif o ormes caethiwed a gafwyd ers hynny
 Saith canrif o frwydro a diodde dan gyfraith y Sais
 Ond er dichell pob bradwr a chynllwyd pob taeog a chachgi
 Mae'r Cymry ar gerdded, a'r bobol yn codi eu llais.

Cytgan: A cherddwn ymlaen
 Cerddwn drwy ddŵr a thân
 Cerddwn a ffydd yn ein cân
 Ymlaen —cerddwn ymlaen.

26 Ciosg Talysarn


Cyflwynedig i Mr a Mrs Moses Edwards, Bro Silyn, Talysarn, a ddaliodd yr heddlu wrthi'n gosod offer clustfeinio yn y ciosg telefon lleol...

- 1 Daeth ffôn wrth Ronald Reagan ym mis Ionawr wyth deg dau
 "Tyn dy fys mas Magi, a chwyd o dy wely'n glau!
 "Deffra'r hen ddiogyn na Denis sy'n cysgu ar y sofffa'n y cefn,
 "A galw benaethiaid yr heddlu ynghyd i gael Cyfraith a Threfn!"

Cytgan: Cyfraith a Threfn, Cyfraith a Threfn!
 Mae'r heddlu cudd wedi dod ynghyd i gynnal Cyfraith a Threfn!

- 2 Roedd y CIA mewn panics, a galwyd MIS i'r gad
I helpu plismyn bach Gwalia i restio gelynnion ein gwlad,
Aeth y sgwad-geir i bob twll a chornel, o Gwmsgwt i Lanfairygarn,
A chanolwyd yr holl opyresion ar giosg cyhoeddus Talysarn.
Cytgan: Ciosg Talysarn, Ciosg Talysarn,
Mae'r heddlu cudd wedi parcio'u car ger Ciosg Talysarn.
- 3 Mae cyflog yr heddlu 'di codi i ddenu'r goreuon i'r rancs,
Fel y gallan nhw restio lladron, fandaliaid, Welsh Nash a chrancs,
Daeth hufen y rhain at ei gilydd, a chafodd pob un ddweud ei farn,
A phenderfynwyd consentretio'r offensif ar giosg ym mhentre Talysarn.
Cytgan: Ciosg Talysarn, Ciosg Talysarn,
Mae'r heddlu cudd wedi parcio'u car ger Ciosg Talysarn.
- 4 Os oes gynnoch chi fater go bwysig i'w ffonio'n gyfrinachol i'r wraig,
Neu fusnes tyngedfennol i'w ffonio yn Gymraeg,
Os nad ydych am rannu'ch syniade nac am i'r byd gael gwybod eich barn,
Wel cymerwch gyngor caredig, a chadwch yn glir o Dalysarn!
Cytgan: Ciosg Talysarn, Ciosg Talysarn,
Mae'r heddlu cudd yn hambygio pawb yng Nghiosg Talysarn.

Ar record Dafydd Iwan ac Ar Log, "Rhwng Hwyl a Thaith" –Sain 1252M



27 Clyw! O Clyw fy Nghri, F'anwyl yd

Doh = A

Wrth im cist - edd - yn fy nghell, cof - iaf am f'an-wy-lyd

Yn rhydd

wen Ac am wyn - dyd ei chus - an - au gy - da'r hwyr. *Cariad Cryf*

Llir - a'r da - grau lawr fy ngrudd er im gei - sio bod yn

ddewr Ac mac hir - aeth bron a'm lleth - u i yn llwyr.

CYTGAN, yn rhyddymach.

Clyw! O clyw fy nghri, f'anwyl - yd, Co - fia fyth amdanaf fi, Cyn bo

hir cawn fynd yn rhydd O rwy'n disgwyl am y dydd, Cawn gu - sanu fel o'r blaen, ond ti a fi.

- 2 Roedd dy wallt 'run lliw â'r aur, a'th wefusau fel y rhos,
Roedd dy groen fel plu yr eira ar y bryn,
Cofiaf liw dy lygaid hoff wrth it edrych arnaf fi,
O! mor unig ydyw hebod erbyn hyn.
- 3 Cofiaf droedio llwybrau'r ffridd yn dy gwmi nos a dydd,
Cofiaf blethu'r gwyllt rosynnau yn dy wallt,
Ond mae'r cyfan wedi mynd, does dim ar ôl ond muriau'r gell,
Wrth im gofio, rwyf yn wyllo dagrau hallt.

28 Creadur Bach o Grwydryn

- 1 Rhyw greadur bach o grwydryn wyf,
Yn crwydro ffordd y wlad,
A thlodi a'm gorfododd i
I gael fy mwyd yn rhad.
Ymhob math o dywydd,
Boed hindda neu boed law,
Rhyw greadur bach o grwydryn wyf
Yn troedio yma a thraw.

Cyngan: Mae gennyf gant o ffrindiau
A chariadon wrth y fil;
Fel pob creadur meidrol
Methaf gadw'r llwybr cul,
Weithiau 'rwyf yn sobor,
Fel rheol 'rwyf yn chwil.
Rhyw greadur bach o grwydryn wyf
Heb nabad neb o'm hil.

- 2 Rwy'n crwydro byd a betws
A chanaf ar fy nhaith,
Fy nillad sydd yn garpiog
A'm gwely sydd yn llaith,
Y nefoedd yw fy nenfwd,
A'r ddaear yw fy llawr,
Ond os mai gwag yw'r boced fach
Rwy'n mwynhau pob munud awr.

- 3 Y defaid yw fy ffrindiau
Sy'n pori ar y ffridd,
A'r adar yw 'nghariadon,
Mae nhw, fel fi yn rhydd.
Rwy'n molchi yn yr afon,
A chysgu dan y llwyn,
A phan rwy'n unig, fe af i
I sgwrsio gyda'r brwyn.

29 Croeso Chwedeg Nain

Yn fywiog

Mae pawb we - di medd - wi, mae taid ar y sbri, Mae cath drws ne - es ar
bl cath ni, Mae llun y Duke of Nor-folk uwch ben y lle iân, a
mam tu bl i'r pie - no yn ca - nu 'Ca - lon Llan', Ie
Croe - so Chwe - deg Nain, Croe - so Chwe - deg Nain, Croe - so Chwe - deg
Nain, - - - Mae Nain yn naw deg yn
dweud ei bod yn chwe-deg, a dan-nedd go - sod taid yn nwg y Prasa.

- 2 Rhaid cael te-parti
A charnifal i'r plant,
A Dewi ni wedi'i wisgo
Lan fel Dewi Sant,
Balwys ym mhobman
A sŵn fel ffair,
A Joni wedi cwmpo
Mewn cariad â Stella Mair.

- 3 Pasiant, mabolgampau,
Baneri ym mhob stryd,
A wedi bwyta gormod
Mae Wili ar 'i hyd,
Twpnath dawns nos fory
A Jymbi sale nos lau,
A Joni bach a'i gariad
Mas bob nos tan ddau.

4 Dewyrth yn y dafam
Yn yfed drwy y nos,
A Dadi wedi peintio
Iwnion Jac ar gât y clôs,
Fe gollodd Mari'i chalon
I fab i ddy'n y llâth,
A phan ofynnodd hwnnw iddi
Fynd 'da fe, mi ath!

5 Cymnafa fawr y pentre
Sy'n rhan o'r hwyl a'r sbri,
A phawb o'r capel nesa'
Yn dod i'n capel ni,
Daeth Modryb o America
A Modryb o Japan
I ganu 'Haleliwia'
I frawd bach Princess Anne.

8 Mae Mam wedi dysgu'r plant bach drwg
Sy' wedi mynd oddi ar y rëls,
I ganu mewn 'falsetto' -
'God Bless the Prince of Wales',
Mae'r ffys wedi hala Wili'n od -
Mae e'n siarad hefo fe'i hun,
A Matilda yn y bathrwm
Yn dysgu 'God Save the Queen'.

6 Mae'r fuwch yn y beudy
Yn brefu am y llo,
A 'does dim angen gofyn
Beth fydd ei enw o'
Ond mae'r hwch fawr gefn-ddu
Yn gwrthod cael moch bach,
Am ei bod hi'n gwrthwynebu
Cymryd rhan yn y strâch!

7 Ffenestri wedi'u peintio
Yn goch a gwyn a glas,
A llun y Cwin o'r cwtsh-dan-stâr
Wedi cael dod mas,
Llun Lloyd George yn y pasej,
A'r Diwc ar yr hen focs te,
Ond mae'r babi wedi stico 'chewing-gum'
Yn groes i'w lygad dde!

30 Chwarae â 'Nghalon

1 Pan oeddwn i rhyw fore braf
Yn cerdded yn y dre,
Digwyddais gwrdd â merch fach ddel
Y dlysaf dan y ne',
Fe gurai 'nghalon fach yn gynt
Wrth edrych arni hi,
A gofyn wnes yn fyr fy ngwynt
"A ddoi di efo mi?"

Cytgan: Roedd ganddi wallt r'un lliw â'r eboni
A'i chroen yn ail i ewyn y lli
Ond O! wyddwn i ddim,
Na, wyddwn i ddim,
Mai chwarae â 'nghalon roedd hi.

2 Cerdded wnaethom lawr y stryd
A'm braich amdani'n dynn,
Yr oedd yr haul yn gwenu'n braf
A'r byd i gyd yn wyn.
Ond pan geisiais am un gusan fach
Edrychodd arna i'n syn,
A dweud, 'Efalla mod i'n ddel,
Ond does dim galw am beth fel hyn'.

Cytgan

31 Daw, Fe Ddaw yr Awr

Yn gymhedral (Moderato)

2 Wyt ti'n cofio teulu'r Beasleys
Yn gwrthod talu'r dreth,
A gwyr Llanelli'n gofyn
'Y ffylid dw! I beth?'
Cofio'u haberth
A'u gweledigaeth
Daw, fe ddaw yr awr yn ôl i mi.

3 Wyt ti'n cofio sgwâr Caerfyrddin
Pan oedd Emyr yn y llys,
Y dyrfa fawr yn ddistaw
Ac yntau'n cael deuddeg mis
Am fod yn Gymro,
Wyt ti'n cofio?
Daw, fe ddaw yr awr yn ôl i mi.

4 Wyt ti'n cofio Pont Trefechan
A'r brotest gynta'i gyd
A'r Cardis yn ffael deall
Pam 'roedd Cymry'n blocio'u stryd
Heb ddim achos,
'Codwch, blantos!'
Daw, fe ddaw yr awr yn ôl i mi.

- 5 Wyt ti'n cofio mynd ar brotest
I dre Dolgellau deg,
A llanciau'r dre a'r plismyn
Yn taflu drwn a rheg
Fel cosb am hawlio
Parch i'r Cymro,
Daw, fe ddaw yr awr yn ôl i mi.
- 6 Wyt ti'n cofio Twm yng ngharchar
Am sefyll dros ei hawl
A phobol Cymru'n ei wawdio
A'i alw'n ffŵl a diawl –
Am fod yn Gymro
Wyt ti'n cofio?
Daw, fe ddaw yr awr yn ôl i mi.
- 7 Wyt ti'n cofio Cwm Tryweryn
Pan agorwyd argae'r trais,
A dialedd hwyr y Cymry
Yn boddi geiriau'r Sais,
Wyt ti'n cofio?
Rhy hwyr Gymro!
Daw, fe ddaw yr awr yn ôl i mi.
- 8 Wyt ti'n cofio sgwâr Caerfyrddin
Pan gododd Cymru'i phen,
Llawenydd yn ein dagrau
A Gwynfor yno'n ben,
Wyt ti'n cofio,
Nos y gwawrio?
Daw, fe ddaw yr awr yn ôl i mi.

32 Dewch i Lan y Môr

- 1 Does dim golwg fod y niwl a'r glaw yn cilio
Does dim golwg o'r haul drwy'r cwmwl du
Mae'n dal i fwrw hen wragedd a ffyn
Chawn ni byth fynd i lan y môr fel hyn
'Dyw'r hafau 'nawr ddim fel yr hafau fu.

Cytgan: O-o-ho . . . 'dyw'r hafau 'nawr ddim fel yr hafau fu.



- 2 Mae'r dyn ar y boc yn sôn am ysbeidiau heulog
Mae'r dyn ar y boc yn gaddo tywydd braf
Mae'n dal i fwrw hen wragedd a ffyn
Chawn ni byth fynd i lan y môr fel hyn
Daw'r gaea'n 'nôl cyn i ni weld yr haf.

Cytgan: O-o-ho . . . 'dyw'r hafau 'nawr ddim fel yr hafau fu.

- 3 Mae 'na le i gredu fod y niwl yn dechrau codi
Mae 'na le i gredu fod yr haf ar drothwy'r ddôr
Mae'r hen blaid Lafur yn colli'i lle
Ar drai yn y Gogledd, cilio yn y De
Cydiwch yn y bwced a'r thaw, dewch i lan y môr.

Cytgan: Hwre, hwre, cydiwch yn y bwced a'r thaw, dewch i lan y môr (3) 47

33 Dim ond Un Gân

- 1 Mae canig nad adwaen mohoni yn iawn
 Yn hongian rhwng gwagle a byd
 Mae'n disgwyl amdanaf ni wn i ymhle
 Ond gwn ei bod yno o hyd.
 Mae'n disgwyl amdanaf fel morwyn y wawr
 Fel Blodeuwedd â'r gwllith ar ei bron
 Ond ofn sy'n fy nghalon nad eiddof y gân
 Mai cân heb ei chanu fydd hon.

Cytgan: Dim ond un gân yn awr sydd ar ôl
 Dim ond un gân yn awr sydd ar ôl
 Cnawd yw ei geiriau a'i halaw yw'r gwaed
 Dim ond un gân yn awr sydd ar ôl.
 A gwaeddaf yn uchel ar gyrion y lli
 Gofynnaf i'r nos o ble daeth
 A'r unig ymateb a gaf fi o hyd
 Yw murmur y môr ar y traeth.

- 2 Pan grwydraf yn unig hyd lwybrau y grug
 Gwrandawaf ar gwyngan y gwynt
 Ar nodau diystyr eheddyd y rhos
 Gylfinir a'i chri ar ei hynt.
 Rwy'n amau bryd hynny mai nhw biau'r gân
 Na fynnant ei rhannu â mi,
 Ond clywaf ei hadlais o ddyfnder fy mod
 A cân heb ei chanu fydd hi.

Cytgan

34 Dos F'anwlyd

- 1 Mae gruddiau f'anwlyd yn ail i wrid y pabi,
 mae llygaid f'anwlyd yn las fel awyr yr haf,
 mae croen f'anwlyd yn wyn fel blodau'r lili,
 ei charu a fynnaf, ond gwn, mi wn na chaf.

Cytgan: Dos f'anwlyd cyfod frwynen
 ac ymafla yn ei deupen
 yn ei hanner torr hi'n union
 fel y torraist ti fy nghalon.

- 2 Mi welais f'anwylyd yn eistedd ar lan yr afon
a llygaid y dydd o'i chwmpas fel perlau mân
ac yno fe ganai yn ddistaw ryw hen alawon
gwrandewais o hirbell a chollais fy nghalon yn lân.
- 3 Rwy'n cofio y noson y cerddem yng ngolau'r lleuad
a gwyllo cysgodion cymylau ar wyneb y tir
roedd brigau'r coed yn sibrwd straeon cariad
ond gwyddwn bryd hynny na pharai fy nefoedd yn hir.



35 Dyffryn Lliw

G C G D G C

G A D *Cytgan* G C G A

D G G7 C G D7 G

- 1 Dewch i weld gogoniannau Brynman
Pont Lliw a Gorseion, Tre Gŵyr,
Cewch frecwast ym Mhontarddulais
A gorffwys yng Nghlydach r'un hwyr.

Cytgan: Dyffryn Lliw, Dyffryn Lliw
Mae croeso yn Nyffryn Lliw
Mae'n estyn i chwithe ar drothwy'r wythdege
Ei chroeso i 'Steddfod Lliw.

- 2 Cewch gerdded dros erwau Cas Llchwyr
A thrwy yr Allt Wen ar eich tro,
Cewch ddisgled o de lawr yn Nynfant
A seibant yn Rhyd y Fro.
Bydd craig Cefn Parc yma'n galw,
A Chwmllynfell yn cymell i'r ŵyl,
Waunarlwydd yn agor ei drysau
Pontardawe yn eilio i'r ŵyl.

Cytgan

- 3 Awn hebio i Rhiwfawr a Chilmaengwyn,
Cwm Gors a Garnswilt ar ein taith,
Cawn wylia ar Waencaegurwen
Cyn symud ymlaen i Dai'r Gwaith,
Cawn straeon o Nant y Gaseg,
A chwRDD â bois ffein Pentrefach
Cawn chwerthin yn Ystalyfera,
I Felindre yr awn gan bwyll bach.

Cytgan

36 Dyn Oedd yr Iesu

Doh-D

Pan fydd brey-drau by - wyd yn ein lle-thu A'r llwy-byr hawdd i'w
 weid o'n blaen yn glir, We-di ym-drech deg ac e-to me-thu, Mor
 a - nodd y - dyw in - ni ddael ein tir. Dy-ro in - ni'r ffydd, dy - ro in - ni'r
 ffydd sy'n ga-llu sy - mud my - ny-ddoedd, sy - mud my -
 ny - ddoedd a ne wid y byd, fel y gwnaeth e - fe.
 Dyn oedd yr Ie - su a ffydd yn ei ga - lon.
 ffydd yn ei ga - lon, a dur yn ei waed.

2 Pan fydd ffrindiau oes yn cefnu arnom
 A ninnau'n gweld y byd trwy gwmwl du,
 Pan fydd popeth annwyl inni'n cilio
 Gan adael dim ond hiraeth am a fu.
 Dyro inni'r gobaith
 Dyro inni'r gobaith i weled heulwen
 I weled yr heulwen drwy bob cwmwl du.
 Fel y gwnaeth Efe,
 Dyn oedd yr Iesu a gobaith yn ei galon
 Gobaith yn ei galon a dur yn ei waed.

3 Pan fydd brawd at frawd yn troi'n llofruddiwr
 A gwaed y rhai diniwed yn y llaid,
 Pan na wŷr plant am fyd heb drais gomeswr
 A sŵn y bomiau tân yn sgrech ddi-baid
 Dyro inni'r cariad
 Dyro inni'r cariad i goncro pob gormes
 Concro pob gormes a threchu pob trais.
 Fel y gwnaeth Efe,
 Dyn oedd yr Iesu a chariad yn ei galon,
 Cariad yn ei galon, a dur yn ei waed.

37 "Eifionydd"

—gydag ymddiheuriadau i R. Williams Parry
 (I'w hadrodd)

- O olwg hagrwch Cynnydd
 Mae wyneb trist y Graith,
 A bro rhwng môr a mynydd
 Heb ynddi swydd na gwaith,
 Ond ambell glarc sy'n dal ar ôl
 I seinio'r hogia ar y dŵl.
- Draw o ymyson ynfyd
 Chwerw'r newyddfyd blin,
 Mae yno oglau'r cynfyd
 Yn suro fel hen win.
 Hen, hen yw wyneb llawer Mam
 Sydd rhwng dau fywyd yn Nerwen Gam.
- A llonydd gorffenedig
 Yw llonydd y felin goed
 O fwa'i tho pydredig
 I'r concridd dan fy nhroed.
 I fos na gwas ni weithia ddim,
 A hynny sydd yn uffem im.
- Mor drist yw cerdded lonydd
 Y tawel gwmwd hwn,
 A'r dyffryn distaw llonydd
 Yw dull y byd a wn.
 Rhodiaf ei heddwch yng nghwmni'r criw
 A holi beth yw pwrpas byw.

38 Ffwl da-da-da

Cytgan: Ffwl da-da-da-da-da, ffwl da-da-da-da-da
 Priedodd y gleren hen iâr fach yr ha'.

- Dyweddodd y gleren "Wnei di 'mhriodi i?
 O iâr fach yr ha', rho dy galon i mi."

Cytgan

- Atebodd hithau "O mi fydde hi'n neis
 Cael gŵr sydd yn dipyn bach mwy o seis."

Cytgan

- Atebodd y gleren "Er fy mod i mor fach
 Mae 'nghariad i'n gywir, a 'nghalon yn iach'."

Cytgan

- Aethant at y gwningen i'w priodi, do,
 Ac yna am fis mêl o gwmpas y fro.

Cytgan

- Hwmian y gwenyn a chyfarth y cŵn
 Chlywyd erioed y fath ddwndwr a sŵn.

Cytgan

39 Gad fi'n Llonydd

Yn gymharol

The musical score for 'Gad fi'n Llonydd' is written in G major and 2/4 time. It consists of ten staves of music with lyrics underneath. The lyrics are in Welsh and correspond to the numbered list on the left page. The score includes various musical notations such as notes, rests, and bar lines. There are also some performance instructions like 'Cyfran' and 'Alreddi'.

- 1 Paid â chodi dy lais i'm herbyn
Wnes i ddim drwg i neb
Gad fi'n llonydd, gad fi'n llonydd,
Dwy'i ddim yn lleidr nac yn feddwyn
Does arna'i ddim i neb
Gad fi'n llonydd o fy Nuw, gad fi fod.

Cyfran: Does dim rhaid i mi ddiodef
Fe wnaeth e yn fy lle
Gad fi'n llonydd O! fy Nuw,
Gad fi fod.

- 2 Rwy'n mynd i'r capel weithie
Mae'r plant yn mynd i'r Ysgol Sul
Gad fi'n llonydd, gad fi'n llonydd
Beth mwy na hyn sydd eisie?
Rwy'n Gristion, ond heb fod yn gul
Gad fi'n llonydd O! fy Nuw, gad fi fod.
- 3 Paid â gofyn i mi aberthu
Dros blant mewn gwledydd pell
Gad fi'n llonydd, gad fi'n llonydd
Mi 'rof bumpunt yn y gronfa
Er mwyn cael cysgu'n well
Gad fi'n llonydd O! fy Nuw, gad fi fod.

- 4 Beth os ydyw'r iaith yn marw?
Ni allaf fi wneud dim!
Gad fi'n llonydd, gad fi'n llonydd
A moesau'r oes yn isel –
Mae hynny'n ofid im
Ond gad fi'n llonydd O! fy Nuw, gad fi fod.
- 5 Paid â dweud "Fel hyn y gwnaeth yr Iesu"
Ers talwm yr oedd o'n byw!
Gad fi'n llonydd, gad fi'n llonydd,
Fe gafodd o'i aberthu
Er mwyn i mi gael byw,
Gad fi'n llonydd, O! fy Nuw, gad fi fod.

40 "Forty Shades of Green"

Ysgrifenydd yng Nghaerdydd yn y Chwedegau, pan oedd Cefn Gwlad Cymru'n ddigon pell i fod yn ddefnydd ramantus...

- 1 Daw hiraeth arnaf weithiau
Yng nghanol sŵn y dref
Am heddwch bro fy mebyd
Lle mae na lasach nef,
Lle mae na braidd ar fynydd
A llwybrau cain ar dir,
A'r Gymraeg yr un mor swynol
Â chan yr afon glir.

Cyfran: Ond mwy yw'r hiraeth sy'n fy mron
Am ferch a gerais gynt
Ei gwên a welaf yn yr haul
A'i chusan yn y gwynt.
Ac os câf finnau ddychwel
I gyrrau'r wlad rhyw ddydd
Câf ei chusanu yn yr heulwen
A'i charu'n yr awel rydd.

- 2 A phan fo'r nos yn disgyn
A lampau'r dref ynghyn
Daw hiraeth am weld y lleuad
Ynghrog ym mrigau'r ynn,
A phan fo sŵn y strydoedd
A'r dyrfa arnai'n boen
Daw hiraeth am dawelwch
Y ffridd lle brefa'r oen.

Cyfran

Alaw Johnny Cash

41 Glyn y Rhosyn

- 1 I lawr yng Nglyn y Rhosyn
Yn y llecyn dan y coed,
Yno ger yr afon
Yr arferem gadw'r oed,
Neb ond ti a minnau
A'r adar rhwng y dail,
Yno'n bwrw'n swildod,
Gwén a chusan bob yn ail.

Cytgan: Cerdded lincyn loncyn
Hyd y llwybr dan y coed,
I lawr wrth lan yr afon
Lle'r arferem gadw'r oed.

- 2 Euthum eto heddiw
Pr llecyn dan y coed,
I lawr wrth lan yr afon
Lle'r arferem gadw'r oed,
Deigryn ddaeth i'm llygaid,
Wrth gofio'r amser gynt,
Wylo oedd yr afon,
A lleddf oedd cân y gwynt.
- 3 Pam na ddoi di eto,
Pr llecyn dan y coed
I lawr yng Nglyn y Rhosyn
Lle'r arferem gadw'r oed?
Yno mi gawn brofi
Rhin yr amser gynt,
Chwerthin fydd yr afon,
A llon fydd cân y gwynt.

42 Gorau Cymro, Cymro Oddi Cartref

- 1 Mae'r 'ramblers' ar y llwybrau,
Mae'r dringwyr ar y graig,
D'yw'r hen fwthyn bach gwyngalchog
Ddim yn clywed swm Cymraeg
Fe brynwyd yr afon gan 'syndicate',
A'r llyn gan fois y cwch,
A lle bu tân ar aelwyd lân
D'oes heddiw ddim ond llwch.

Cytgan: Gorau Cymro, Cymro oddi cartref
Yn llawn hiraeth yn gwneud cân,
A Saeson bach neis o Firmingham
Yn byw yng ngwlad y gân.

- 2 Mae arwydd 'for sale' ar yr ysgol
Ni welir y plant yno mwy,
Trowyd hen gapel bach Salem
Yn glwb dringo ers blwyddyn neu ddwy
Mae 'nhad a mam wedi symud i'r garej
Er mwyn cael gosod y tŷ,
A mynd dros y ffin i Loegr draw
Yw'r unig ddyfodol i mi.

Cytgan

- 3 Fe werthwyd gwlad fy nhadau
Am ychydig ddarnau aur.
Fe werthwyd fy nhreftadaeth
Am ddyrnaid o gonffeti ffair.
Mae croeso yn y brynau
I bawb ond fy mhlant fy hun,
Maes chwarae cenedlaethol
Sy'n ymestyn i ben draw Llŷn.

Cytgan

- 4 Ond mae cenhedlaeth newydd yn codi
I ennill y tir yn ôl,
I brynu'r maes a gollwyd
Ac i ail gyfaneddu'r ddôl,
Fe ddaw seiri, fe ddaw tôwyr
A'u hoffer loyw lân
I godi'r muriau a chwalwyd
Ac ar yr aelwyd ail gynnu'r tân.

Cytgan: Fe ddaw'r Cymro yntau adref
I roi bywyd i'r hen gân
A ffydd yn nhinc ei forthwyl ef
A gobaith yn fflamau'r tân.

43 Hyn Sydd yn Ofid Im

Yn gymhediol

Doh E Pim we - laf yr haul ar yr he - li, Neu
lwy - byr y lloer ar y lli, - Pan ddaw'r gwa -wyn yn ôl i'r
wig Gy - da'i fan - tell werdd i'r brig, Hyn sydd yn
d d d A d E7 d d A l i l i
o fid im, Cof - io'r rhy - fel a'r
gwaed yn Fi - et - nan lle nad oes am - ser
hi - dio da - grau man, Y - no gwa - llir gor - nes
grym yn lladd i' gŵ - ddyf llyn, A hyn sydd yn
o - fid im.

2 Pan fydd llawnder yn llethu fy mywyd,
Ac esmwythyd yn llethu fy myd,
Pan fydd hawddfyd arnai'n bwn
Daw y cof am y tristwch hwn,
A hyn sydd yn ofid im:
Gweld y bomiau yn disgyn gyda'r glaw,
Clywed adlais yr wylo oddi draw,
Cofio'r Negro yn ei gell,
A'r Gwladgarwr o flaen ei well,
A hyn sydd yn ofid im.

3 Pan fydd natur yn dawel o'm cwmpas
A heddw hwydos haf dros y wlad,
Er mor dawel fy myd mi wn
Fod imi ran yn y tristwch hwn, -
A hyn sydd yn ofid im:
Cofio'r pentre sydd heddiw dan y llyn,
Cofio'r Gymru sydd yn gaethferch hyd yn hyn,
Trwy holi sŵn rhyfeloedd pell
Cofiaf Gymry yn eu cell,
A hyn sydd yn ofid im.

44 I'r Gad!

Em A Em B7 Em A
Em B7 A E Cytgan E
E7 A C DC

1 Mae'r Cymry wedi gwylltio,
A'u hysbryd sydd ar dân;
Pob tafod wedi tewi,
A'r arfau'n finio gŵn,
A'r arfau'n finio gŵn.

Cytgan: I'r Gad! I'r Gad!
Dewch Gymry hen ac ifanc,
Dewch i'r Gad!

2 Syrffedwyd ar fân siarad,
Pwyllgorau saff di-ri;
Nid malu awyr mwyach,
Ond malu seins y'm ni,
Ie, malu seins y'm ni.

Cytgan

3 Fe heriwn bob awdurdod,
Wynebwn gosb a thrais;
Sylfeini'r drefn a grynant, bois
Pan godwn ni ein llais,
Pan godwn ni ein llais.

Cytgan

4 'Sdim digon yn y fyddin
I gwblhau y gwaith;
A godwch chwî o'ch hawddfyd clyd
I gerdded ar y daith?
I gerdden i ben y daith?

Cytgan (3)

Hefin Elis

45 I Twm yng Ngharchar

- 1 Mae'r heniaith Gymraeg yn annwyl i mi
A'i llen o gyfoeth yn llawn,
Siaradwn hi'n y 'Steddfod, y capel a'r ffarm
Ond yn y llys, y Saesneg sy'n iawn.

Cyngan: Mae Twm yn y carchar am fynnu ei hawl,
Unwn ninnau i ganu ei fawl.
Eisteddwch yn barchus a'i alw fe'n ffwl,
Ond gwyddom mai y fo sydd yn iawn.

- 2 Mae'r llywodraeth o blaid yr iaith, medde nhw,
Am achub yr heniaith ddi-nam,
Ond peidiwn â gwasgu ein hawliau'n rhy bell
Rhag ofn i'r Saeson gael cam.

Cyngan

- 3 Mae hon yn iaith i ti a mi
A'i miwsig yn llifo'n ein gwaed,
Ond os na wnaiff Cymru ddeffro cyn hir
Caiff hithau ei sathru dan draed.

Cyngan

46 Llygod

- 1 Roedd sbwriel yn llanast o gwmpas y lle,
A hwnnw yn drewi fel dwn i ddim be',
I ganol y llanast, does wybod o ble,
Daeth miloedd ar filoedd o lygod.

Cyngan: Roedd llygod ym mhobman, rhai coch a rhai du,
A bobol y Bala, mi'r oedden nhw'n hy,
Yn brathu a sathru, yn llarpio yn llu,
Wel dyna chi lygod anhygoel!

- 2 Roedd Caleb yn neidio fel dyn off ei ben,
A Blodyn yn sgrechian "Mae'r byd 'ma ar ben",
Llewelyn yn chwerthin a gweiddi "Amen",
Wirth weld yr holl filoedd o lygod.

Cyngan

- 3 Fe fyton nhw'r bara a'r menynd i gyd,
Y caws a'r cacennau, a gadael dim byd,
Roedd Dan Dŵr yn gorwedd yn fflat ar ei hyd
Dan draed yr holl filoedd o lygod.

Cyngan

- 4 Wel hwn oedd y pla lluosocaf mewn co,
Ond daeth y Dyn Lludw i'r ogof am dro,
A chyd'r holl sbwriel, aeth y llygod, wel do
Ffarwelwyd â'r miloedd o lygod.

Cyngan

47 Mae Geneth Fach yng Nghymru

Doh = E

E m m:m m m | f f | - s B s : s : s : s | s : f f f

Mewn pen-tref bach yng Nghymru mac bw-lynn gwyn-galch ha rdd. Ond does
 Tyf on-sea yn ci ymyl a blo-dau yn yr a rdd. Ond does
 Ac yn-o. ie, yn trigo mac car-iad yn y ba rdd. Ond does

E m : - . m,majr : - . m,r d : - : - . d f : f | f f : f

neb, neb a wŷr ymhle mac.
 neb, neb a wŷr ymhle mac.
 neb, neb a wŷr pwy yw hi. Mac hon bob amser mor

E m:m m | m : - . m B7 r, r : - r | r,r:d, r E m : - | s : - . s

bar-od â'i gwên. A chus-an bob a-deg ar ei mi-n: Mac

A 1 : 1 | 1. t : - 1 E s : s : s | s : d, r m : - . m,majr : m. f d : - : - .

hon bob am-ser yn gy sur i gyd Ond does neb, neb a wŷr pwy yw Ai.

- 2 Mae geneth fach yng Nghymru â'i gwallt mor ddu â'r nos
 Ond does neb, neb a wŷr pwy yw hi.
 Ei chroen mor wyn â'r lili, a'i gruddiau fel y rhos,
 Ond does neb, neb a wŷr pwy yw hi.
- 3 Mae geneth fach yng Nghymru â'i llygaid O! mor las,
 Ond does neb, neb a wŷr pwy yw hi.
 Mae hon yn un mor annwyl, ni ddywed ddim yn gas,
 Ond does neb, neb a wŷr pwy yw hi.

48 Mae 'Nghalon i ar Dorri

- 1 Mae 'nghalon i ar dorri,
 Mae 'nghalon i ar dorri,
 Mae 'nghalon i ar dorri,
 Fe aeth fy nghariad i.
- 2 Rwy'n crio fel yr afon, (3)
 'R'ôl colli 'nghariad i.
- 3 Do, fe gawsom gweryll, (3)
 Yna gadawodd hi.
- 4 Fe chwiliodd am un arall, (3)
 Er mwyn f'anghofio i.
- 5 Fe gafodd gariad newydd, (3)
 A'm dagrau ddaeth yn lli.
- 6 O tyrd yn ôl f'anwyl, (3)
 O rwy'n dy garu di.

49 Mae Hiraeth yn fy Nghalon

- 1 Mae hiraeth yn fy nghalon am y ddoe na ddaw yn ôl,
Mae tristwch yn fy enaid am a fu,
Mae dagrau yn fy llygaid 'rôl rhai sydd wedi mynd
A'r atgof sydd yn bwrw cysgod du.

Cytgan: Af i chwilio yn y mynydd. Af i chwilio yn y glyn.
Af i chwilio am orffennol teg fy ngwlad.
Gwrandawaf ar yr afon, a syllaf ar y llyn
A disgwyl, disgwyl gweled fy nhreftad.

- 2 Mae awel yn y brigau yn dweud am y dyddiau blin
Pan oedd gormes landlordiau yn y tir,
A'r hesg yn dweud yn ddistaw am fuchedd gwerin dlawd
Aberth bywydau byr a'r dyddiau hir.

Cytgan: Ond dywed nant y mynydd am lawenydd ac am hwyl,
Am falchder a gorfoledd am yr iaith,
A dywed llif yr afon am fethiant gormes Sais
I dorri calon ddewr y bur hoff bau.

Pennill 1 eto

Cytgan: Af i chwilio yn y mynydd. Af i chwilio yn y glyn.
Af i chwilio am orffennol teg fy ngwlad.
Gwrandawaf ar yr afon, a syllaf ar y llyn
A gwelaf, gwelaf yno fy nhreftad.

50 Mae 'na Le yn Tŷ Ni

Yn fywiog

Doh-A Mae tad-cu yn per-thyn i'r Blaid Lafur, mae'i frawd yn Do-ri rhonc, Fy
chwaer yn di-pyn o Young Li-be-ral, a 'mrawd yn di-pyn o ionc, Mae
mam yn Ga-dei-rydd y Dyb-liw Ai, a da-di dru-am ar y ddi. Mae
'nghefn-der we-di di-mc-gy-da gwraig y fet a ma'nhw'n dweud na ddaw e byth yn
ôl, O' mae 'na le yn tŷ ni, yn tŷ ni, O - - -
Mae 'na le yn tŷ ni.

- 1 Mae tadcu yn perthyn i'r Blaid Lafur,
Mae'i frawd yn Dori rhonc,
Fy chwaer yn dipyn o Young Liberal,
A mrawd yn dipyn o ionc,
Mae mam yn Gadeirydd y Dybliw Ai,
A dadi druan ar y ddi,
Mae 'nghefnnder wedi dianc gyda gwraig y fet
A ma'nhw'n dweud na ddaw e byth yn ôl.

2 Mae Tadcu yn perthyn i'r Blaid Lafur
 Ers dyddiau'r ILP,
 Fe fuodd e ar streic am fis neu ddau
 Ac yn y carchar am ddeuddydd neu dri,
 Mae llun Keir Hardie uwch ei wely
 Mae'n darllen Karl Marx wrth y tân,
 Mae e'n credu fod Elystan yn Sosialydd Mawr
 A bod Wilson yn Gymro glân.

3 Mae gan frawd tadcu ddigonedd o bres,
 A thafarn ar lan y môr,
 Heiffen neu ddwy rhwng ei ddau syrnam
 A medal neu ddwy yn y drôr,
 Mae e'n Dori am mai Tori yw e fod, medde fe,
 Ac am mai Tori oedd ei Dad a'i Daid,
 Mi gaiff garden bob Nadolig o wrth shoffer y cwîn,
 Mi siaradith Gymraeg os bydd rhaid.

4 Mae fy chwaer yn perthyn i'r Liberals bach
 A'i gwallt hi fel tomen o dail,
 Mae'n lico tipyn bach o bot ar y slei,
 Yoko Ono yw Lloyd Geroge yr ail,
 Mae ganddi bâr o drowsus o groen jiraff
 A dim ond un arall yn sbâr,
 Mae hi'n credu mai wrth garu y mae hi'n liberal,
 Ac fod Hooson braidd yn sgwâr.

5 Mae na gangen newydd sbon o Ferched y Wawr,
 Newydd ddechre yn ein pentre bach ni,
 Ond mae Mam yn gwrthod gwneud dim byd â nhw
 Am eu bod nhw yn gul medde hi,
 Mae ei ffrindie i gyd yn perthyn i'r W.I.
 Gwraig y ficer a Miss Willoughby Wee,
 Mae'n ymarfer ei Saesneg wrth siarad â'r gath,
 Ac ambell i air wrth y ci.

51 Mae'n Disgwyl

The musical score for 'Mae'n Disgwyl' is written in treble clef with a key signature of one sharp (F#) and a 6/8 time signature. The melody is presented in a single staff across eight lines of music. Chord symbols are placed above the staff to indicate accompaniment: G, D, C, G, D, C, G, D, C, G, Am, G, Am, G. The word 'Cytgan' is written above the staff between the third and fourth lines. The score concludes with a double bar line and the page number 67.

1 Mi welais hen wreigan yn eistedd mewn cornel
 A'i hwyneb yn hen a blinedig,
 Siaradai yn ddistaw am oesau a fu
 Mewn llais oedd yn wan a chrynedig.
 Edrychai i'r fflamau a chofio am ddyddiau
 Pan oedd hi yn ieuanc ei bryd,
 Ac yna dywedodd, a chrac yn ei llais,
 Fod ei gobaith yn aros o hyd.

Cytgan: Mae'n disgwyl i'w meibion a'i merched
 I godi eu pennau yn uchel 'mysg gwledydd y byd.
 Mae'n disgwyl i'w meibion a'i merched
 Ar ryddid i rodde eu bryd.
 Mae'n disgwyl gweld dymchwel holl gaerau a thyrau
 A thraha'r gormeswyr talog i'r llawr.
 Mae'n disgwyl gweld cenedl newydd
 Yn cerdded yng ngolau y wawr.
 Mae'n disgwyl, mae'n disgwyl o hyd.

2 Treiglodd y dagrau i lawr hyd ei gruddiau,
 A'i geiriau yn troi yn ochenaid
 Wrth feddwl am fywyd o lafur a phoen,
 A'r siom a roes graith ar ei henaid.
 Estynai ei dwylo at wres y tân
 Ac yn sydyn newidiodd ei phryd,
 Ac yna dywedodd, â her yn ei llais,
 Fod ei gobaith yn fyw o hyd.

52 Maen Nhw'n Paratoi at Ryfel

Cytgan

The musical score is written in treble clef with a key signature of one sharp (F#) and a 4/4 time signature. It consists of seven staves of music. Above the notes, guitar chords are indicated: G7, C, G, C, D7, C, G, B7, C, G, Pennill, G, C, G, D7, G, B7, C, A, G, D7, G. The melody is primarily composed of eighth and quarter notes, with some rests and a final double bar line at the end of the seventh staff.

Cytgan: Maen nhw'n paratoi at ryfel
 Er mwyn cadw'r byd yn rhydd
 Maen nhw'n adeiladu bomiau mwy a mwy
 Maen nhw'n paratoi at ryfel
 Nes y gwawria'r hyfryd dydd
 Y bydd neb ar ôl i boeni am ddim byd mwy.

- 1 Felly talwch, ddinasyddion!
 A rhowch o'ch pwrs yn hael,
 Y Trident yw y ffordd i'r bywyd gwir,
 Mae'n rhaid arfogi'r gwledydd
 I sicrhau'n ddi-ffael
 Yr heddwch hir tragwyddol dros ein tir.
- 2 Rhown stop ar drais a gormes
 Ac ar strach y strydoedd cefn,
 Fe grogwn holl derfysgwyr cas y byd,
 Y bomiau bendigedig
 Ddaw a'r byd yn ôl i drefn,
 A phawb i fyw mewn heddwch —ar eu hyd.
- 3 Felly talwch, ddinasyddion!
 I wneud y gwaith yn haws
 Mae'r bom niwtron yma i achub euog ddyn,
 Cawn fyw dan fwrdd y gegin
 Gyda brechdan fach o gaws
 I ddisgwyl am yr alwad olaf un.
- 4 Felly talwch, ddinasyddion!
 Dim ond y gorau wnaiff y tro,
 Fe adeiladwn fom fydd yn werth y byd,
 Fydd dim sôn am bridd y fynwent
 Na gorwedd yn y gro,
 Cawn losgi gyda'n gilydd yr un pryd.

Ar record Dafydd Iwan ac Ar Log, "Rhwng Hwyl a Thaith" —Sain 1252M

53 Mae'n Wlad i Mi

Doh = E E

The musical score is written in treble and bass clefs with a key signature of one sharp (F#). It consists of three systems of music. The first system has lyrics: "Mi fum yn crwydro hyd lwybrau unig Ar foel-ydd". The second system has lyrics: "meithlon yr hen Ar enig. A chlywn yr awel yn dweud yn". The third system has lyrics: "dawel. 'Mac'r wlad hon yn eiddo i ti a mi.'". Chord symbols are placed above the staff: Doh = E, E, A, E, B7, E7, A, E, B7, E.

CYTGAN

Mae'n wlad i mi ac mac'n wlad i ti - thau - O gopa'r Wydd - fa -
 i lawr i'w thraeth - au: O'r De i'r Gog - ledd, o Fôn i
 Fyn - wy, Mae'r wlad hon yn eiddo i ti a mi.

- 2 Mi welais ddyfroedd Dyfrdwy'n loetran
Wrth droen yr Aran ar noson loergan,
A'r tonnau'n sisal ar lan Llyn Tegid,
"Mae'r wlad hon yn eiddo i ti a mi."
- 3 Mae tywod euraid ar draeth Llangrannog
A'r môr yn wyrddlas ym mae Llanbedrog;
O ddwfn yr eigion mae clychau'n canu,
"Mae'r wlad hon yn eiddo i ti a mi."

54 Mae'r Cyfan yn Eiddo i Harold

- 1 Ar lan afon Tafwys mae Palas Whitehall,
Ac yno'r aeth Harold beth amser yn ôl
Yn bennaeth ar senedd holl Brydain o'r bron,
Ac yno i'w ddilyn aeth yr hen dyrfa lon.
-Yr hen Jim, Eirene a Meic a Ness
William, Ednyfed, Elystan a Des,
Leo, James, Idwal, Goronwy a Cled,
Mae'r cyfan yn eiddo i Harold.
- 2 Bu pwyllgor Huws Parri yn unfryd eu cais
Am gael cydraddoldeb rhwng Cymro a Sais,
Fe wnaed addunedau yn ribi-di-res,
Ond dydi cyfiawnder ddim mymryn yn nes.
-Am fod Jim etc.
- 3 Cyn hir fe ddaw'r amser i edrych yn ôl
A gwelir y bobl yn cyrchu i'r pŵl,
Ac os y dyfermir 'rhen Harold i'r clwt
Fe welir yn dilyn yn un parcel twt
-Yr hen Jim etc.

55 Mae'r Darnau yn Disgyn i'w Lle

Beth ydy ystyr y geiriau sy'n llenwi 'nghaneuon?
 Beth ydy ystyr y dagrau sy'n llosgi fy ngrudd?
 Beth ydy rheswm y dychryn sy'n llenwi fy nghalon?
 Beth ydy neges y cysgod sy'n twyllu fy ffydd?

Hiraetha fy enaid am ennyd o wybod a sicrwydd y syml a'r glân
 hiraetha fy enaid am harmoni'r lleisiau a'r alaw sy'n burach na'r gân.

Mae eco'r cwestiynau yn boendod o hyd ar fy neall,
 mae pwysau'r amheuan yn fwrn ar f'ysbryd llesg
 a dianc a wnaef eto trwy gaeau y crawcwellt a'r ysgall
 at heddwch y mynydd i wrando doethineb yr heg.

Ac yno caf sicrwydd yr oesau
 mae'r darnau yn disgyn i'w lle,
 mae doe ac yfory i minnau,
 does dim angen gofyn,
 does dim angen gofyn paham nac i be.

Mae'r meddwl yn hurt wrth wrando tiwn gron y newyddion,
 mae celwydd y gwleidydd yn gadael cam-flas yn fy ngheg,
 fe'm dallwyd gan liwiau a sglein a sgrech hysbysebion -
 dyw cyngor yr holl arbenigwyr yn ddim namyn rheg.

56 Mae'r Llencyn yn yn y Jêl

Musical score for 'Mae'r Llencyn yn yn y Jêl' in 4/4 time. The score consists of five staves of music. The first staff has chords F, D, and Gm. The second staff has chords C, F, D, and Gm. The third staff has chords C, Cytgan, F, Bb, and F. The fourth staff has chords Bb, F, Dm, and G. The fifth staff has chords C, Bb, and F.

1 Mae 'na rai sy'n dweud o hyd
Does dim o'i le ar ein gwlad,
Nad oes gormes yn y tir,
Ac mai lol yw son am frad.

Cytgan: Ond mae'r llencyn yn y jêl
A 'dyw Cymry'n malio dim,
Ond daw rhyddid doed a ddél
O'i gaethiwed creulon llym.

2 Gwelodd hwn ei ffordd yn glir,
Dewis gadael hawddfyd moeth,
Gadael aelwyd, gadael câr,
Gwrthod cyngor bydol ddoeth.

Cytgan

3 Fe agorir drws y gell,
A daw'r llanc i olau dydd,
I weld Cymru'n Gymru well,
I weld Cymru'n Gymru rydd.

Cytgan

4 Daw un arall yn ei le
Ac un arall ar ei ôl,
Tra fo craig rhwng daer a nef
Tra bo heulwen ar y ddôl.

Cytgan

Alaw Hefin Elis

57 Mae Rhywun yn y Carchar

Musical score for 'Mae Rhywun yn y Carchar' in 4/4 time, key of D major. The score consists of five staves of music with corresponding chord diagrams above them. The chords are: D, F#m, Em, A, D, F#m, Em, A, Bm, F#m, Em, A, Bm, F#m, Em, A7, D, D7, G, A, D, D7, G, A, D, Bm, F#m, Em, A, Em, A7, D.

1 Yr un yw'r sgwrs dros glawdd yr ardd
 "mae'n codi'n braf" neu "mae'r blodau'n hardd"
 sôn am Amin fel tae o'n byw lawr y stryd
 wffftio at y rhyfel ym mhen draw'r byd
 sôn am bopeth dan haul y ne
 barnu pobl, rhoi'r byd yn ei le
 dweud 'run gair am y ddau neu dri
 sydd heddiw'n y carchar drosom ni.

Cytgan: Mae rhywun yn y carchar drosom ni
 mae rhywun yn y carchar drosom ni
 mae'n anodd gwybod beth i'w wneud
 mae'n anodd gwybod beth i'w ddweud
 pan fydd rhywun yn y carchar drosom ni.

- 2 "So what?" medd riportar y BBC
 "dyw aberth ddim yn stori" medd HTV
 "pan aeth yr un cynta i mewn dros y iaith
 roedd hynny'n newyddion, 'sdim gwadu'r ffaith
 ond pan aeth un arall, ac un arall i'r jél
 y stori wedyn aeth braidd yn stél
 er cymaint y carem roi sylw i chi
 mae pethau pwysicach i fynd ar TV".
- 3 I'r diawl â'r fath siarad! y rhain sydd yn rhydd
 rhain sy'n sefyll dros y Gymru a fydd
 yn nŵwch eu celloedd, mae'r fflam heno'n goch
 y ffydd yn gadarn a'r waedd yn groch
 clywaf eu cri yn nhawelwch y nos
 yn deffro'r mynyddoedd, yn ysgwyd y rhos
 a diolch i Dduw am y dau neu dri
 sydd heddiw'n y carchar drosom ni.

Alaw Hefin Ellis

58 Mae yn Hwyr Brynhawn

Musical score for 'Mae yn Hwyr Brynhawn' in 4/4 time. The score consists of four staves of music. The first staff has a treble clef and a key signature of one flat (Bb). The notes are: F4, G4, A4, Bb4, C5, Bb4, A4, G4, F4, E4, D4, C4. Chords above: F, Gm, F, Gm, C, Am. The second staff has a treble clef and a key signature of one flat. Notes: D4, C4, Bb4, A4, G4, F4, E4, D4, C4, Bb4, A4, G4, F4. Chords above: Dm, Bb, F, Gm, Bb, F, Cytgan. The third staff has a treble clef and a key signature of one flat. Notes: Bb4, C5, D5, C5, Bb4, A4, G4, F4, E4, D4, C4, Bb4, A4, G4, F4. Chords above: Bb, C, Dm, Bb, C, F. The fourth staff has a treble clef and a key signature of one flat. Notes: Bb4, C5, D5, C5, Bb4, A4, G4, F4, E4, D4, C4, Bb4, A4, G4, F4. Chords above: Bb, C, Am, D, Gm, Bb, F.

- 1 Braf yw medru chwarae mig â Chymru,
Braf yw medru chwerthin am ei phen,
Smalio nad yw bywyd ond Noson Lawen hir
Ac esgus nad oes cwmwl yn y nen.
Cytgan: Ond cofia frawd nad oes amser gennyf bellach
I din-droi yn feddw a di-hid,
Hwn yw'r cyfle olaf gawn, eisoes mae yn hwyr brynhawn,
A'r haul yn bygwth machlud ar ein byd.
- 2 Hyfryd ydyw dringo ysgol gyrfa
A phluo'r nyth yn gynnes ac yn glyd,
Rhoi croes wrth enw Cymru, ac eistedd nôl yn braf
Ac esgus mai digysgod yw ein byd.
- 3 Chwalwyd ein breuddwydion glân rhamantus,
Maluriwyd holl obeithion Cymru Fydd,
Mae'r bradwr ar yr aelwyd a'r estron yn y nyth,
Rhaid sefyll nawr a byw fel Cymry rhydd!

59 Magi Thatcher

Musical score for 'Magi Thatcher' in 6/8 time. The score consists of four staves of music. The first staff has a treble clef and a key signature of one sharp (F#). Notes: D4, E4, F#4, G4, A4, B4, C5, B4, A4, G4, F#4, E4, D4. Chords above: D, A7. The second staff has a treble clef and a key signature of one sharp. Notes: D4, E4, F#4, G4, A4, B4, C5, B4, A4, G4, F#4, E4, D4. Chord above: D. The third staff has a treble clef and a key signature of one sharp. Notes: G4, A4, B4, C5, B4, A4, G4, F#4, E4, D4, C4, B3, A3, G3, F#3, E3, D3. Chords above: G, D, A7. The fourth staff has a treble clef and a key signature of one sharp. Notes: D4, E4, F#4, G4, A4, B4, C5, B4, A4, G4, F#4, E4, D4. Chord above: D.

- 1 Dewch at y tân,
Gwrandewch ar fy nghân,
Mi ganaf i Magi Thatcher;
Y ddynes o haear
Brenhines y ddaear
Neb llai na Magi Thatcher,
Fflachio mae'r mellt
Pan ddaw Magi To Gwellt
I osod y ddeddf i lawr,
Mae 'di canu ar Gymru
Awn yn ôl at y llymru,
Henffych O! Magi Thatcher.
- 2 Mae pobl ddiiniwed
Yn credu bod eu tynged
Yn nwylo Rhagluniaeth a ballu,
A hi Madam Sera
Sy'n deud yn y bora
Mai'n y lleud a'r sér y mae'r gallu;
Ond celwydd yw hynny
Yr un sy'n penderfynu
Yw Magi y ddynes to gwellt,
Mae 'di canu ar Gymru
Awn yn ôl at y llymru
Henffych O! Magi Thatcher.

3 Mae'r Rwsiaid yn gwelwi
Pan glywan nhw enwi
Enw 'rhen Fagi Thatcher,
A'r Ayatola Khomeini
Mae yntau yn crynu
Pan welith lun Magi Thatcher,
Mae'r farchnad gyffredin
Yn wan fel gwybedyn
Pan fydd Magi yn gweiddi o bell,
Mae 'di canu ar Gymru
Awn yn ôl at y llymru
Henffych O! Magi Thatcher.

4 Mae hon fel y graig,
Canmolwn y ddraig
'S dim symud na throi ar Thatcher,
Ond troi wnaeth y ledi
Ar y sianel deledu,
U-Turn gan Magi Thatcher.
Mae hen wlad fy nhadau
Yn frith gan doriadau
Mae'r fenyw a'r fwyell yn dod,
Mae 'di canu ar Gymru
Awn yn ôl at y llymru
Henffych O! Magi Thatcher

5 Os nad oes job gan y gŵr,
Yr ateb yn siwr
Yw 'symud', medd Magi Thatcher,
'Gan wreiddio eich tent
A symud i Kent
Fel eich tadau', medd Magi Thatcher,
Ond mae'r Cymry am sefyll
Heb symud eu pebyll
I herio 'rhen Fagi a'i chriw,
Dros iaith a thros waith bois,
Ymladdwn yn awr bois,
Cawn wared ar Magi Thatcher.

60 Mair Paid ag Wylo Mwy

- 1 Weli di'r doethion yn dyfod draw
Drud anrhegion ym mhob llaw?
Dod i weled y Baban
Mair, paid ag wylo mwy
Mair, Mair, paid ag wylo mwy (2)
Dod i weled y Baban
Mair, paid ag wylo mwy.
- 2 Weli di'r bomiau mor loyw a glân
Yn barod i'n chwythu yn chwilfrw mân?
Tybed a gofiwn y Baban
Mair, rhaid it wylo mwy
Mair, Mair, paid ag wylo mwy (2)
Tybed a gofiwn y Baban
Mair, paid ag wylo mwy
- 3 Weli di'r bugail yng nghanol ei braidd
Yn gwarchod y defaid rhag y llew a'r blaidd?
Daw yntau i weled y Baban
Mair, paid ag wylo mwy
Mair, Mair, paid ag wylo mwy (2)
Daw yntau i weled y Baban
Mair, paid ag wylo mwy
- 4 Weli di'r Negro yn diodde'n ei gell
Glywi di blentyn y newyn pell?
Mae Herod ar waethaf y Baban
Mair, rhaid it wylo mwy
Mair, Mair, paid ag wylo mwy (2)
Mae Herod ar waethaf y Baban
Mair, paid ag wylo mwy.

Alaw: addasiad o alaw Negro America

61 Mam Wnaeth Gôt i Mi

The musical score is written in 4/4 time and consists of four staves. The first staff has a treble clef and a key signature of one flat (Bb). The notes are: G4, A4, Bb4, C5, Bb4, A4, G4. Chords above are F, Bb, F, C. The second staff continues the melody: G4, A4, Bb4, C5, Bb4, A4, G4. Chords above are F, Bb, F, C7, F, Cytgan. The third staff has a treble clef and a key signature of one flat (Bb). The notes are: G4, A4, Bb4, C5, Bb4, A4, G4. Chords above are Bb, F, C7, F, Bb. The fourth staff has a treble clef and a key signature of one flat (Bb). The notes are: G4, A4, Bb4, C5, Bb4, A4, G4. Chords above are F, C7, F.

1 Gofynais i'r titw bach
 Ble gest ti gôt mor las?
 A dyma'r ateb ges i —
 O mam wnaeth gôt i mi o ddarn o'r awyr fry
 Pan oedd hi'n ganol haf.

Cytgan: La la la la la,
 La la la la la,
 La la la la la —
 O mam wnaeth gôt i mi o ddarn o'r awyr fry
 Pan oedd hi'n ganol haf.

2 Gofynais i'r deryn du
 Ble gest ti liw dy blu?
 A dyma'r ateb ges i —
 Mam wnaeth gôt i mi o ddarn o'r awyr fry
 Pan oedd hi'n ganol nos.

3 Gofynais i'r deryn to
 O ble daeth ei gôt fach o?
 A dyma'r ateb ges i —
 O mam wnaeth gôt i mi o ddarn o'r awyr fry
 Pan oedd hi'n bwrw glaw.

4 Gofynais i'r robin goch
 Ble gest ti gôt mor goch?
 A dyma'r ateb ges i —
 O mam wnaeth gôt i mi o ddarn o'r awyr fry
 Pan oedd hi'n fachlud haul.

62 Mari Fawr Trelech

Yn fywieg

Mi es ryw no-son wyn-tog i gwdd ũ Ma-ri
 fawr, eis-te-ddais wrth y beu-dy am dros dri chwâr-ter
 awr, ac yn-a cly-wais wis-tlad yn dod o'r egu-bor
 wair, a dy-na lle roedd Ma-ri yn
 cym-ryd lle dwy neu dair. O! Ma-ri a-ha-- Ma-ri--
 Ma-ri o ho ho-- Ma-ri, es gwallt llw cws-tard
 dy-- hon sydd bron fel dwy, O! ni
 am am un sy'n fwy na Ma-ri fawr Tre-lech.

- 2 Eisteddais wrth ei hymyl
 A dweud 'Helo' 'n reit cŵl,
 Ond y cyfan ddwedodd Mari oedd --
 'Ble buest ti, y ffŵl?'
 Ond cyn iddi ddweud dim rhagor,
 Gafaelais yn eitha sownd --
 A ffeindio mas bod fy mreichiau i'n
 Rhy fyr i fynd reit rownd!

63 Mari Malw

Cytgan

- 1 Lliw ei gwallt fel y rhedyn ar ochr y bryn
 A'i gruddiau fel rhosyn ar liain main gwyn,
 'Roedd ei gwên fel yr heulwen a'i llygaid ar dân
 Wrth feddwl amdani mi ganaf fy nghân.
 O Mari Malw, fy Mari Malw,
 'Gei di gario fy nhelyn fy Mari Malw.
- 2 Mi gwelais hi gyntaf yn ymyl y môr
 A chanai y tonnau'n fy nghlustiau fel côr,
 'Roedd bod yn ei chwmmi'n dod ag angerdd i'm bron,
 Mae hwnnw'n fy llethu y funud hon.
 O Mari Malw, fy Mari Malw,
 'Gei di diwnio fy nhannau fy Mari Malw.
- 3 Fe aethom rhyw fore am dro hyd y traeth,
 Trodd ataf yn sydyn a gwenu a wnaeth,
 'Roedd ei gwên fel taer awyr yn olau gan felt
 A miloedd o ffllamau yn ysu y gwellt.
 O Mari Malw, fy Mari Malw,
 'Gei di ganu fy nghytgan fy Mari Malw.
- 4 Diflannodd rhyw ddiwmod o'm golwg yn llwyr
 A minnau'n ei charu fel arfer rhy hwyr
 Ond pan af i gerdded hyd lwybr y ddôl
 Mae'r atgof yn mynnu dod ataf yn ôl.
 O Mari Malw, fy Mari Malw,
 'Rwy'n canu fy hunan heb fy Mari Malw.

64 Meddwl Amdanat Ti

Doh = D

s | *d* : *m* | *s* : *f* : *m* | *d* : *d* | - : *s* |

Mac'r haul yn mach-lud yn a — raf — Dros

d : *d* | *m* : *r* : *d* | *r* : - | - : *s* | *D* *d* : *d* | *m* : *m* |

ym — y! maw-nog' a rhos A'r lleu — ad wen yn

G *f* : *f* | *l* : *l* | *D* *s* : *s* | *A7* *f* : *m* : *r* | *D* *d* : - | -

dod i'r nen l ol — eu — o cr — wau'r rhos.

CYTGAN

s | *d'* : *d'* : *d'* | *s* : *s* | *d* : - | - : *s* |

Rwy'n meddwl am — dan — at ti. Breu —

d' : *d* : *d* | *t* : *l* | *A* *s* : - | - : *s* | *D7* *m* : *m* : *m* | *s* : *s* : - | *l* |

ddwyd-io am — dan — at ti. Rwy'n meddwl am — dan — at, breu —

G *l* : *l* : *l* | *l* : *l* | - *f* | *D* *m* : *m* : *m* | *r* : *r* | *D* *d* : - | -

ddwyd-io am — dan — at, Breu — ddwyd-io am — dan — at ti.

- 2 Pan gyfyd ehedydd o'r rhosdir,
Pan neidia y brithyll o'r dŵr,
Pan awn am dro hyd lôn y coed,
Bryd hynny, mi fyddaf yn siwr.
- 3 Pan eilw'r brwyn ar yr awel
A'r afon yn sisial ei chân
Mae cyffwrdd dy ddwylo yn fwyn ar fy nghroen
A'm calon sy'n myned ar dân.
- 4 Tra pery dail ar y fedwen,
Tra pery aderyn mewn nyth,
Tra pery'r halen yn nyfroedd y môr
Mi fyddaf yn ffyddlon byth.



65 Mefus ar dy Wefus

Cytgan: Mae'r mefus ar dy wefus di
Mefus ar dy wefus di
Mefus ar dy wefus
Rhosyn ar dy rudd
Ti yw 'nghariad i.

- 1 Rwy'n deffro yn y bore bach
Clywed cân yr adar
Yn rhoi croeso i'r dydd
Yn dwyn i gof dy gariad di.

Cytgan

- 2 Mae ewyn gwyn ar donnau y môr
Ewyn gwyn y tonnau
A gwyn yr wylan hithau
Yn dwyn i gof dy gariad di.

Cytgan

- 3 Mae awel fwyn ar fynydd y foel
Awel fwyn ar fynydd
A blodau y grug
Yn dwyn i gof dy gariad di.

Cytgan: Mae'r mefus ar dy wefus di
Mefus ar dy wefus di
Mefus ar dy wefus di
Rhosyn ar dy rudd
Ti yw 'nghariad i.

(ac eto)

66 Merch y Mynydd

- 1 Mae 'nghariad i yn trigo yn Eryri
yn crwydro unigeddau'r llethrau llwm
godre'i gwisg yn siffrwd ar y mwsog
a'i llais yn llais yr awel yn y cwm.
Persawr blodau'r grug sydd i'm hanwylyd
a'i gwallt lliw cysgod clogwyn yn y llyn,
mi garaf ferch y mynydd yn fy nghalon
a chanaf i gyfeiliant nant y glyn.

Cytgan: Pam mae merch y mynydd yn fy ngwrthod
a chrwydro'r unigeddau wrthi ei hun?
Ai am im droi fy nghefn ar wlad fy ngeni
a rhoi fy serch yn llwyr i estron un?

- 2 Mae urddas y canrifoedd yn ei cherdded
costrelwyd gwin yr oesau yn ei gwaed,
gwyra cangau'r fedwen wrth ei gweled
a thyf y meillion gwyn yn ôl ei thraed.
Mae'n galw arnai'n ôl o'm taith ddisberod
i roi fy hun yn llwyr i'r hon a'm dug
fel y gallwyf innau gerdded a'r hen urddas
a charu merch y mynydd yn y grug.

Cytgan

67 Mr Tomos, Os Gwelwch chi'n Dda

- 1 Mi es am dro oho-o, i ffyrdd y fro,
Ar draws ac ar hyd,
I bedwar ban byd
I chwilio am bedair tref fach ddel,
Rhai digon twt, a fel a fel;
A dyma fel bu,
A dyma fel bu.

Cytgan: Mi es i chwilio am –
Ddinbych a Chaergybi,
Abertawe, Aberteifi.
Ond ni weles i mohonyn nhw,
Dim hyd yn oed na be na bw,
Er craffu'n agos ar bob post,
A cherdded nes bo 'nhraed bach i'n dost,
Ni welais i nhw,
Ni welais i nhw.

Dim ond Cardigan a Swansea,
Holyhead a Denbigh,
Dim ond y rhai 'ma weles i,
Rhain yw dy Gymru di,
O! Mr Tomos, os gwelwch chi'n dda,
Rhowch nhw lan cyn diwedd yr ha',
Neu mi fydd yma le,
Neu mi fydd yma le.

- 2 Mi es am dro oho-o, o do, oho-o
Hyd y llwybrau cul,
Rhyw fwrw Sul,
Ac i bob priffordd a phob lôn,
A thros pob clawdd o Fynwy i Fôn,
A dyma fel bu,
A dyma fel bu.

Cytgan

68 Myn Duw mi a Wn y Daw

Yn symbolaidd (Moderato)

The musical score is written in G major and 4/4 time. It features two vocal parts with lyrics in Welsh. The score includes various musical notations such as treble clefs, time signatures, and dynamic markings like 'Eiddid' and 'C'. The lyrics are as follows:

1. Mae gwaed y rhai fu'n bwyd - ro ac a li - fodd er y
2. Mae Ow - an
gwellt oes ta - lwm we - di' ol - chi gan y glaw. Ni
chlyw - af gan y da - rwm, ni we - laf gan y melli. Nid
oes ond tri an - o - bath ar bob llaw. Ym
nhle mae Ow - sin yn awr? Ym nhle mae
Ow - sin yn awr? Ow - sin, ni
ddaw yn si - Ow - sin, ni ddaw yn si -
Daw lla - w we - di' tri, Daw an - oes we - di'r
glaw, an we - di'r nos ni un y waw a ddaw.
O'r ni un y daw Ow - sin yn si - O'r ni

wn y daw Owain yn ôl Fel llanw wedi'r
 trai, fel am-fys wedi'r glaw, fel gwawr-io wedi'r
 nos, myn Duw mi a wn y daw -- myn Duw mi a wn y daw --
 1. Nid yn ofer y bu'r brwydro, nid yn
 2. Yn res-trwm...
 ofer ty-wallt gwaed, mae e-to fu-ddu-gol-iaeth yn y
 gwyni. Mi glyw-af lei-siau'r gyl-wyr, mi glyw-af swm eu
 trawd, yn cer-dded o Er-yr-i er eu hynnt. Rhowch
 lei-bio bob an-o-haith a'r holl am-beu-on lu, mae
 Owain e-to'n be-nod am y dydd. o'i loches yn Eryri
 -yr-i, fe ddaw a'i ffyddlon lu i'n harwain er-da'r
 wawr i Gymru rydd. A myn Duw mi a

wn y daw, ayn Duw mi a wn y
 daw, a myn Duw mi a wn y daw.

- 1 Mae gwaed y rhai fu'n brwydro
 Ac a lifodd ar y gwellt
 Ers talwm wedi'i olchi gan y glaw;
 Ni chlywaf gan y daran,
 Ni welaf gan y melt,
 Nid oes ond cri anobaith ar bob llaw.
 Ymhle y mae Owain yn awr?
 Ymhle y mae Owain yn awr?
- 2 Mae Owain, gyda'i filwyr,
 Wedi cilio draw o'n gwlad,
 Ac nid oes mwy ond atgof ar ei ôl.
 Nid oes ond oer gelannedd
 Lle gynt bu maes y gad,
 Ac nid yw rhyddid mwy ond breuddwyd ffôl.

Cytgan: Owain, ni ddaw yn ôl,
 Owain, ni ddaw yn ôl,
 Daw llanw wedi'r trai,
 Daw enfys wedi'r glaw,
 Ac wedi'r nos mi wn y wawr a ddaw.
 O! mi wn y daw Owain yn ôl --
 O! mi wn y daw Owain yn ôl,
 Fel llanw wedi'r glaw,
 Fel gwawrio wedi'r nos,
 Myn Duw, mi a wn y daw,
 Myn Duw, mi a wn y daw.
 Nid yn ofer y bu'r brwydro,
 Nid yn ofer tywallt gwaed,
 Mae eto fuddugoliaeth yn y gwynnt.

Mi glywaf leisiau'r milwyr
 Mi glywaf swm eu traed
 Yn cerdded o Eryri ar eu hynnt.
 Rhowch heibio bob anobaith,
 A'r holl amheuan lu,
 Mae Owain eto'n barod am y dydd.
 O'i loches yn Eryri,
 Fe ddaw a'i ffyddlon lu,
 I'n harwain gyda'r wawr i Gymru rydd.
 Fel llanw wedi'r trai,
 Fel enfys wedi'r glaw,
 Fel gwawrio wedi'r nos,
 Myn Duw, mi a wn y daw,
 Myn Duw, mi a wn y daw.

- 3 Ymrestrwn yn ei rengoedd,
 A'r iaith Gymraeg yn arf;
 Dioddefwn warth caethiwed awr yn hwy.
 Gorseddwn iaith ein tadau,
 Dilewn olion brad,
 Dangoswn nad taecogion monom mwy!
Cytgan: Rhown heibio bob anobaith,
 A'r holl amheuan lu,
 Mae Owain eto'n barod am y dydd.
 O'i loches yn Eryri,
 Fe ddaw a'i ffyddlon lu
 I'n harwain gyda'r wawr i Gymru rydd.
 Myn Duw, mi a wn y daw. (3)

69 Mynd yn Ôl

1 Daeth amser im anghofio'r
blynyddoedd a aeth heibio –
rwyf wedi setlo lawr i'r bywyd bras.
Gwaith am naw bob bore
yn fy nillad gore
gweithio yn y swyddfa 'ngore glas.



2 Rwy' am gael bod yn fasiwn,
rwy'n cadw lan da'r fasiwn,
fy nghar i ydy'r gore yn y stryd
rwy' newydd gael dyrchafiad,
rwy'n disgwyl am gael codiad
ond rwy'n dechre cael llond bola ar fy myd –

Cytgan: Rwy'n mynd yn ôl, nôl, nôl
i'r dyddiau a fu
pan oedd pawb yn sôn am y Beatles ac LSD
rhowch imi wên, rwy'n mynd yn hen,
rwy'n canu'n y côr, mae 'ngwaed i'n oer,
tynnwch y botel Brylcreem mas o'r drôr.

3 Ffarwel i'r semi-dy
A'r cylyr TV
rwy'n mynd gyda'r bois ar yr ôl;
achosion da, mae'r rheini'n bla,
peidiwch gofyn imi fynd i'r jêl.

4 Troi 'nghefn ar gyflog da –
rwy'n mynd i dyfu ffa,
rwy'n mynd i ddechrau comiwn yn y fro;
tyfu 'ngwallt yn hir
mynd yn ôl at y tir
peidiwch dweud fy mod i'n mynd o 'ngho –



70 Pam Fod Eira'n Wyn?

G D Em G D Em G D Em

C G G7 C A G

Cytgan

C G D7 G C G

C G C A D7

G D Em G D Em G D

Em C G DC

1 Pan fydd haul ar y mynydd,
Pan fydd gwynt ar y môr,
Pan fydd blodau yn y perthi,
A'r goedwig yn gôr.
Pan fydd dagrau f'anwylyd
Fel gwllith ar y gwawn,
Rwy'n gwybod, pryd hynny,
Mai hyn sydd yn iawn, —

Cyngan: Rwy'n gwybod beth yw rhyddid,
Rwy'n gwybod beth yw'r gwir,
Rwy'n gwybod beth yw cariad
At bobol ac at dir;
Felly peidiwch â gofyn eich cwestiynau dwl,
Peidiwch edrych amai mor syn
Dim ond ffŵl sydd yn gofyn
Pam bod eira yn wyn.

2 Pan fydd geiriau fy nghyfeillion
Yn felys fel y gwin,
A'r seiniau mwyn, cynefin,
Yn dawnsio ar eu min,
Pan fydd nodau hen alaw
Yn lleddfu fy nghlyw,
Rwy'n gwybod beth yw perthyn
Ac rwy'n gwybod beth yw byw!

Cyngan

3 Pan welaf graith y glöwr,
A'r gwaed ar y garreg las,
Pan welaf lle bu'r tyddynwr
Yn cribo gwair i'w das.
Pan welaf bren y gorthwrwm
Am wddf y bachgen tlawd,
Rwy'n gwybod bod rhaid i minnau
Sefyll dros fy mrawd.

Cyngan (2)

71 Pan glywaf Gân y Clychau

1 Pan glywaf gân y clychau
Yn ysgafn ar y gwynt,
Mi glywaf sŵn dy chwerthin
Yn dod o'r dyddiau gynt
Atai'n ôl, atai'n ôl.

2 Pan welaf blu yr eira
Yn disgyn ar gangau'r coed,
Mi dybiaf weld dy wyneb
A chlywed sŵn dy droed
Yn dod yn ôl, yn dod yn ôl.

3 Ond pan fo'r haul yn machlud
Fel tân i wely'r lli,
Dywed cwyn y tonnau
Na ddaw fy nghariad i
Fyth yn ôl, fyth yn ôl.

4 Ond pan fo'r wawr yn torri
A'r golau'n deffro'r dŵr,
Daw gobaiith lond fy nghalon,
A gwn yn ddigon siwr
Y doi di'n ôl, y doi di'n ôl.

72 Parodi ar 'Hon'

Beth yw'r ots gennyf i am Loegr? Damwain a hap
Yw fy mod yn ei libart yn byw. Nid yw hon ar fap
Yn ddim byd ond cilcyn o ynys mewn culfor cefn,
Ac yn dipyn o boendod i'r rhai sy' am newid y drefn.

A phwy sy'n trigo'n y fangre, dwedwch i mi.
Pwy ond mwngreliaid o boblach? Peidiwch, da chwi,

A sôn am wladwriaeth a chymanwlad ac ymerodraeth o hyd:
Mae digon o'r rhain, heb Brydain i'w cael yn y byd.

'R wyf wedi alaru ers talm ar glywed grŵn
Y Saeson, bondigrybwyll, yn cadw sŵn.

Mi af am dro, i osgoi eu lleferydd a'u llen,
Yn ôl i'm cynefin gynt, a'm dychymyg yn drên.

A dyma fi yno. Diolch am fod ar goll
Ymhell o gyffro geiriau'r imperialwyr oll.

Dyma'r Wyddfa a'i chriw; dyma bebyll a charafanau'r tir;
Dyma'r llyn a'r cychod a'r clogwyn; ac ar fy ngwir,

Dacw'r tŷ haf lle'm ganed. Ac wele, rhwng llawr a ne'
Mae lleisiau'r trefedigaethwyr yn llenwi'r lle.

'R wy'n dechrau simsanu braidd; ac meddaf i chwi,
Mae rhyw ysictod fel petai'n dod drosaf i.

A chlywaf grafangau Lloegr yn dirdynnu fy mron.
Duw a'm gwaredo, ni allaf ddianc rhag hon.

73 Peidiwch Gofyn imi Ddangos fy Ochr

Cytgan: Peidiwch gofyn imi ddangos fy ochr,
Peidiwch gofyn imi ddangos fy lliw.
Mae pawb yn gwybod 'mod i'n hen foi iawn
Ac yn fachan bach digon triw.

- 1 Mi wisga'i genhinen yn fy ngwasgod
Ar fore Dydd Gŵyl Dewi Sant,
Mi gana'i "Hen Wlad fy Nhadau"
Ac mi ddysga'i Gymraeg i'r plant.
Ond 'does dim eisie cario pethe'n rhy bell,
Mae pawb eisie byw yn y byd
Ac mae posibil dod ymlaen gyda phobl yn well
Drwy beidio bod yn Gymro o hyd.
- 2 'Rwy'n ddilynwr mawr i dîm rygbi Cymru
"Bread of 'Eaven" ac "I Bob Un",
Ac os bydda'i wedi cael peint neu ddau
Mi roddaf "Bw!" fach i "God Save the Queen".
'Rwy wedi prynu crys coch i'r mab ienga,
Pêl rygbi fach blastig i'w frawd,
Wedi prynu recordie Max Boyce i gyd,
Ac yn dilyn holl droeon ei rawd.
- 3 'Rych chi'n saff o fy fôt i bob amser
Ond alla'i byth roi sticer ar y car,
Mae pobol bwysig drws nesa
Ac mae'r bos yn chwythu lawr fy ngwar.
O 'does dim isho cario petha'n rhy bell
Mae pawb isho byw yn y byd,
Ac mae posibil dod ymlaen efo pobol yn well
Drwy beidio bod yn Gymro o hyd.

74 Peintio'r Byd yn Wyrdd

Yn fywyog

2 Wrth edrych ar y graith
Ar dalcen balch y Ddraig,
Ymladdwn dros yr iaith
Gwnawn bopeth yn Gymraeg.

Cytgan

3 Daeth heddu cudd a'u brad
I daflu'r bois i'r gell, -
Er carchar a sarhad
'Dyw'n rhyddid ddim ymhell.

Cytgan

4 Fe welsom reibio'n plwy
A Thrywerynnu'n stâd,
Ond ni fydd hynny mwy
Cawsom ddigon ar sarhad!

Cytgan

75 Rwy'n Gweld y Dydd

Doh = A

O mac new-id yn y gwynt A chyn

hir fe dyrr y wawr, Mae holl icuencid Cymru, o For-ganwg i Gaerbybi, I

gyd yn deff-ro-nawr, Mae ys-bryd newydd yn y tir, A-

Chym-ru'n deffro i'w tasg Wrth gofio am ferth vron, ac arwyr dewr i werddon, Hanner

canrif yn ôl i'r Pasg, O rwy'n gweld, rwy'n gweld y dydd Bydd

CYTGAN

Cymru ya Gym-ru rydd, A phawb o fewn ein gwlad yn siarad Cym-roc

2 Daw Llywelyn o Gilmeri draw,
 A Glyndŵr i flaen y gad:
 Diosgwn glog y taeg, a rhagom awn yn dalog
 I fynnu parch i'n gwlad,
 Wrth gofio am Ben y Berth
 A Thryweryn o dan y dŵr,
 Ni allwn lai na brwydro i achub cam y Cymro -
 Rhaid ymladd fel un gŵr.

- 3 Mae'r iaith yn codi'i phen
O gors cywilydd hir,
A mynnwn ninnau'i siarad heb ofni brifo teimlad –
Rhaid yw gweld yn glir.
Er mwyn y rhai a fu mewn cell
Ac yn newynnu heb ddim rhaid
A'r rhai a fu mewn llysoedd yn diodde gwawd y cyhoedd
Codwn Gymru ar ei thraed.

76 Sam

Yn gymedrol (Moderato)

By - wyd u - nig oedd by - wyd Sam, Yng - hllwm wrth lia - yn - nam ffe - dog ei fam.

Yn - a daeth Gwen i la - nw 'i fryd, A dy - ma'i gŵm o hyd ac o hyd.

Gwen O! Gwen, mae mrei - chiau i he - no'n a - nos am - da - nat ti. Gwen O! Gwen O!

gwra - do newr, Mae'r nos yn ddu - - cyn tor - ind y wawr.

- 2 Wedi i Sam dyfu'n ddyn
Fe drigai mewn bwthyn ar ei ben ei hun,
Ac wrth iddo gerdded ar draws y rhos
Yr un oedd ei gân o fore hyd nos,
Cyngan
- 3 Roedd calon Sam wedi torri'n ddwy
A dim ond un a allai wella'i glwy
Ac er na ddaeth hi'n ôl ato ef,
Ar hyd ei oes yr un oedd ei lef
Cyngan
- 4 Heno mae Sam ym mynwent y Llan
A chysgod yr ywen yn drwm dros y fan,
Ond eto fe glywir pan fo'r lleuad uwchben
Ei alwad drist yn esgyn i'r nen,
Cyngan

77 Siarad â Ti a Mi

- 1 Rwy'n cofio geni'r baban, y baban yn y gwair
rwy'n cofio geni'r baban, baban i Joseff a Mair
a'r Iesu oedd ei enw ef.
Ond tyfu a wnaeth i fod yn saer
a naddu a wnaeth bren y Gair
sy'n siarad â ti a mi
sy'n siarad â ti a mi

–gofynnodd i mi rannu fy nghyfoeth, do
–gofynnodd i mi siarad â'r pechadur, do
–gofynnodd i mi garu fy ngelyn, do
–ond paid â gofyn i mi wneud hynny'n awr
–does dim lle'n y llety iddo'n awr

Mae'n siarad â ti a mi
mae'n siarad â ti a mi.

- 2 Rwy'n cofio cân angylion i'r bugeiliaid yn y maes
rwy'n cofio taith y doethion, rwy'n cofio'u hymgrymu llaes
a'r Iesu oedd ei enw Ef.
Ond tyfu a wnaeth i fod yn saer
a naddu a wnaeth bren y Gair
sy'n siarad â ti a mi
siarad â ti a mi

–gofynnodd i mi droi'r foch arall, do
–gofynnodd i mi gerdded yr ail filltir, do
–gofynnodd i mi garu fy ngelyn, do
–ond paid â disgwyl i mi wneud hynny'n awr
–does dim lle'n y llety iddo'n awr

Mae'n siarad â ti a mi
mae'n siarad â ti a mi

- 3 Mae deigr yn y llygad Mair, mae wyneb Joseff yn drist
does dim lle'n y llety i'r baban Iesu Grist
does dim lle'n y llety i faban Mair
am i'r baban ddwed y Gair
sy'n siarad â ti a mi
sy'n siarad â ti a mi.

78 Sion a Sian

- 1 Dau gariad ydoedd Sion a Sian,
Mae'n debyg i chi glywed amdanynt o'r blaen,
Rwy'n siwr nad oes neb o Gymru i Sbaen
Sy'n cwmpo mas mor amal â'r rhain.

Cytgan: Cer i ffwrdd, 's dim ots 'da fi,
Cer i ffwrdd, 's dim ots 'da fi,
Cer i ffwrdd, 's dim ots 'da fi,
Mae 'na ddigon o bysgod yn y môr.

- 2 Rhyw ddiwrnod eisteddent ym mharc y dre'
A merched o'u cwmpas ar hyd y lle,
Fe winciodd Sion ar ryw gochen gerllaw
Gwyltiodd Sian a chiliodd draw.

Cytgan

- 3 Mewn coffe posh yng Nghaerdydd rhyw nos
Fe gollodd Sion ei goffi dros ei ffrog fach dlos,
Bytheiriodd Sian eiriau cas
Rhoiodd glustan i'w chariad, a rhedodd mas.

Cytgan

- 4 Rhyw ddiwrnod eisteddent ar fin y llyn,
Gan gydio law yn llaw yn dynn,
Wrth i Sion druan gynnig ei hun iddi'n wr
Cas hi gymaint o ofan, fe neidiodd i'r dŵr.

Cytgan

79 Stôl i Ddau

Yn fywiog

Roedd 'na ferch fach yn byw yn yr ha - fod, yr
ha - fod, yr ha - fod, yn yr ha - fod, roedd 'na
ferch fach yn byw yn yr ha - fod, y la - naf o fer - ched y
byd, y la - naf o fer - ched y byd.

- 2 Un bore fe'i gwelais hi'n godro
Yn godro (3)
Un bore fe'i gwelais hi'n godro,
A gofynnais 'Wyt ti eisie help llaw?' (2)
- 3 Atebodd, 'Oes gennych chi stôl syr?'
Stôl syr (3)
Atebodd, 'Oes gennych chi stôl syr?'
Does dim lle ar hon i ddau'. (2)
- 4 Wedyn mi aethon am dro bach,
Am dro bach (3)
Wedyn mi aethon am dro bach
I ymyl yr hen domen dail. (2)
- 5 Ac yno ces galon i ofyn,
I ofyn (3)
Ac yno ces galon i ofyn,
'F'anwylyd wnei di 'mhriodi i?' (2)
- 6 Eisteddodd am dipyn i feddwl,
I feddwl (100!)
Ac yna, gan wenu, dywedodd
'Mae na le ar y stôl i ddau!' (2)

80 Sul y Blodau

Cytgan: Sul y blodau, Sul y blodau,
Roedd Cymru'n cysgu'n drwm.
Sul y blodau, Sul y blodau,
Daeth y gelyn i fyny'r cwm.

- 1 Glywaist ti'r drws yn malu?
Glywaist ti'r waedd yn y nos?
Glywaist ti'r fam yn wyllo?
Glywaist ti'r waedd yn y nos?
Glywaist ti'r plentyn yn crio?
Glywaist ti'r waedd yn y nos?

Cytgan: Sul y blodau, Sul y blodau,
Mae'r gelyn yn y tir,
Daeth Sul y blodau i ti a minnau
Gymru wele ni.

- 2 Welaist ti gysgod y barau?
Glywaist ti'r waedd yn y nos?
Glywaist ti sŵn y cadwynau?
Glywaist ti'r waedd yn y nos?

Cytgan: Sul y blodau, Sul y blodau,
Mae'r gelyn yn y tir,
Daeth Sul y blodau i ti a minnau
Gymru wele ni.

81 Tedi, Nos Da!

- 1 Tedi, nos da!
Tedi, nos da!
Mae'r draenog yn cysgu
Yng nghysgod y ffa.
Mae'r adar yn ddistaw
Yn nythod y coed,
A'r machlud yn harddach
Nag a welwyd erioed.
Tedi, nos da!
Tedi, nos da!

- 2 Dos i gysgu nawr,
Dos i gysgu nawr,
Cei orwedd yn dawel
Tan doriad y wawr,
Fe gei di freuddwydion
Yn dy wely bach clyd,
Am blant bach yn chwarae
Ar gaeau'r Wlad Hud.
Dos i gysgu yn awr,
Dos i gysgu yn awr.

- 3 Cei ddeffro cyn hir,
Cei ddeffro cyn hir,
A gweled y bore
Yn cerdded y tir,
Cei glywed yr adar
Yn uchel eu cloch,
A theimlo yr awel
Yn cosi dy foch,
Cei ddeffro cyn hir,
Cei ddeffro cyn hir.

82 Tyrd am Dro Hyd y Llwybr Troed

Cytgan: Tyrd am dro hyd y llwybr troed,
Sy'n cychwyn wrth dalcen y ty
Ac yna fe gei di weled
Rhyfeddodau lu.

- 1 Fe gei di weld yr afon fach
Sydd â'i dŵr fel grisial clir,
Fe gei di weld y brithyll
Wrth y dwsin, ar fy ngwir.
Fe gei di weld yr iâr fach ddŵr
Yn nofio rhwng y brwyn,
A'r draenog bach diniwed
Yn cerdded wysg ei drwyn.

Cytgan

- 2 Fe gei di weld y ddafad ddu
Sy'n pori ar y ddôl,
A'r ebol bach yn rhedeg lawr y cae
Ac yn rhedeg fyny'n ôl.
Fe gei di weld yr adar
Yn cuddio rhwng y dail,
A chlywed cân mwyalchen
A bronfrath bob yn ail

Cytgan

- 3 Fe gei di wneud teisennau
O bridd y dorlan draw,
A'u gosod dan wreiddiau'r dderwen
I'w cadw rhag y glaw.
Fe gawn ni redeg rاسus
Lan yr afon i'r llwyni cnau
Fydd neb yn gwybod dim am hyn
Neb ond ni ein dau.

Cytgan

83 Tyrd am Dro i'r Coed

- 1 Tyrd am dro i weld nythod y brain,
A darnau bach o wllân ar y drain,
A gweld y wiwer a'i chlustiau bach main
Pan awn am dro i'r coed.

Cytgan: Tyrd, tyrd, tyrd i'r coed
Tyrd am dro i'r coed
Tyrd, tyrd, tyrd am dro,
Tyrd am dro i'r coed.

- 2 Cawn wrando ar drydar yr adar i gyd,
A chlywed straeon o bedwar ban byd,
Bydd stori newydd i'w chlywed o hyd
Pan awn am dro i'r coed.

Cytgan

- 3 Cawn holi beth yw oedran yr hen dderwen fawr,
A dringo i'w brigau a theimlo fel cawr,
Ac yna ar ras am y cyntaf i lawr
Pan awn am dro i'r coed.

Cytgan

- 4 Cawn wrando ar yr awel ym mrigau y coed,
A chlywed caneuon na chlywsom erioed,
Cawn weled cariadon yn cadw yr oed
Pan awn am dro i'r coed.

Cytgan

84 Tyrd yn Ddi-oed

- 1 Pan welais di ar ddiwrnod o haf, fe wyddwn i
Mai ti oedd yr unig ferch yn fy mywyd i,
Fe suai'r gwynt ym mrigau'r coed
F'anwylyd wen, tyrd, tyrd yn ddi-oed.
- 2 Pan ddywedaist fod cariad gennyf, draw ymhell,
Fe wyddwn y gallwn dy garu'n llawer gwell,
Fe wylai'r gwynt ym mrigau'r coed
Pan aethost i ffwrdd, mor ddistaw dy droed.
- 3 Chwiliais amdanat a chrwydrais hyd fryn a dôl,
Ond ofnaf, f'anwylyd, na ddoi di atai'n ôl.
Clyw weddi'r gwynt ym mrigau'r coed
Tyrd ataf fi, tyrd, tyrd yn ddi-oed.

85 Tywysog Tangnefedd

- 1 Pwy sydd yn barnu â geiriau cas?
Y bechgyn di-reol a'r merched di-ras,
Sy'n meiddio herio deddfau dyn
A luniwyd ganddo er ei fwyn ei hun.

Cytgan: Ac awn ninnau i'r siopau y Nadolig hwn
I brynu y tanciau, i brynu y gwn,
A'u rhoi nhw i'r plantos, a'u cyfarch yn rhwydd
Mae Tywysog Tangnefedd yn dathlu penblwydd.

- 2 Beth yw'r ots os yw'r bomiau yn lladd y plant bach?
Beth yw'r ots am y napal os yw 'nghroen i yn iach?
Rhyfel yw'r lluniau rwy'n weld ar y sgrin,
A gwn yw'r peth plastig gan y mab ar ei lin.

Cytgan

- 3 Fe dalwn ein trethi i gyllid y wlad
I gadw'r milwyr sy'n amdiffyn ein stad,
Fel y galla 'nhw ddysgu celfyddyd y gwn,
I warchod ein rhyddid y Nadolig hwn.

Cytgan

- 4 Mae'n gas gen i fiolens, rwy'n credu mewn trefn,
Mae'n well gen i rebel ar wastad ei gefn,
Llonyddwch yw heddwch, paid â chodi dy lais,
Mae pawb sydd i'm herbyn yn euog o drais.

Cytgan: Tywysog Tangnefedd, Tywysog Tangnefedd,
Tywysog Tangnefedd yn dathlu penblwydd.

86 Weithiau Bydd y Fflam

C F C G7

C F C G7

C Cytgan C7 F C F


G C C7 F C

G7 C

- 1 Weithiau bydd y fflam yn llogi'n isel yn y lamp,
Weithiau bydd fy nghalon innau'n drom,
Weithiau bydd y dagrau'n mynnu llifo'n rhydd
Wrth weled dim ond y noeth amlinell lom.

Cytgan: Mae'r gaeaf oer yn cau amdanaf heno,
Mae'r gwynt yn gwneud lluwchfeydd o'r eira gwyn,
Ond fe ddaw'r heulwen eto fory i doddi'r amdo hwn
A chaf weld daear las fy mro drachefn.

- 2 Weithiau bydd yr awel yn wlo wrth fy nrws
A minnau'r gweld cysgodion ar bob llaw,
Weithiau bydd cymylau yn t'wyllu golau'r haul
A hiraeth ym mhob un o ddafnau'r glaw.
- 3 Weithiau daw meddyliau am hen orffennol pell
A hiraeth am y dyddiau na ddaw'n ôl,
Pan oedd yr iaith yn burach a Chymru'n Gymru well,
Ond gwn mai ofer yw yr hiraeth ffôl.



87 Weli di Gymru?

G G7 C G D

D7 G G7 C G C G

D7 G *Cytgan* C G D7 G

C G D7 G

1 Ti yn dy swyddfa yn Neuadd y Dre,
Yn meddwl mai ffurflen sy'n rhoi'r byd yn ei le;
Cyfod o'th gadair a saf ar dy draed
Fel y gallwn ni weled ai coch yw dy waed.

Cytgan: O! weli di, weli di Gymru?
Weli di, weli di hi?
Pwy all ei hachub os na wnei di?

2 Ti ar dy gyngor â'th bwysau mor fawr,
Dy air sy'n rheoli y machlud a'r wawr;
Y werin fach ddistaw mor syn wrth dy draed,
Ond mae hithau'n dechrau amau ai coch yw dy waed.

Cytgan

3 Ti yn dy swyddfa â'th sigâr yn dy geg,
Yn rhedeg dy gwmni drwy drais neu drwy deg;
Dy gaethwas yw'r gweithiwr a'th roes ar dy draed,
Ond mae yntau'n dechrau amau ai coch yw dy waed.

Cytgan

4 Ti yn dy frawdlys â'th awdurdod mor fawr,
'Run lliw yw dy glogyn â'r gwaed fu ar lawr;
Hualau Prydeindod sy'n clymu dy draed,
A'r Cymro nawr yn gofyn ai coch yw dy waed.

Cytgan

5 Ti yn dy senedd mor bell o dy wlad,
Teymgarwch i'th barti a'th brynnod mor rhad;
Pleidlais y werin a'th roes ar dy draed,
Ond mae hithau'n dechrau amau ai coch yw dy waed.

Cytgan: Weli di, weli di Gymru?

Weli di, weli di hi?

Pwy all ei hachub –

Tybed, tybed wnei di?

88 Wrth Feddwl am Fy Nghymru

Doh = E

Rwy'n cof-io Llyw-e-lyn, bydd in-ocdd Glyn-dŵr, Yn
 ym-ladd dros ry-ddid ein gwlad, Ond caeth-ion ym et-o dan
 haw-en y Sais, Mor dac-og, mor llwm ein hys-tad.

CYTGAN

Ac wrth fedd-wl am fy Nghymru (Pennill olaf) Dew Daw
 gwayw i'm ca lon i- Dyu'r wr-in ddim di-gon o
 llaw-e-nydd i'm ca lon i- Mae'r wer-in yn ddi-gon o
 ddy-n-ion, bois, I fyn-su ei rhyddid hi.
 ddy-n-ion, bois, I cn-nill ei rhyddid hi.

- 2 Wrth edrych o'rh gwmpas fe weli
 Fod yr heniath yn marw o'r tir;
 Ni chlywir un acen, ni chlywir un gair
 O iaith ein cyndadau cyn hir.
- 3 Mae argae ar draws Cwm Tryweryn
 Yn gogfолоfn i'n llyfdra ni;
 Nac anghofiwn ddewrder ein hogia prin
 Aeth i garchar y Sais drosom ni.
- 4 Disgynnodd yr iau ar ein gwarau,
 Ni allwn ni ddianc rhag hon -
 Mae arial y Celt yn byrlymu'n fy ngwaed
 A fflam Glyndŵr dan fy mron.
- 5 Wrth gofio Llywelyn ac Owain Glyndŵr
 Daw trydydd i'm meddwl yn awr,
 A'r gŵr o Langadog a lanwodd y bwich:
 O'r diwedd fe dorrodd y wawr.

89 Wylaf fil o Ddagrau

- 1 Wyt ti'n cofio troed yr allt, heulwen gwanwyn yn dy wallt,
Wyt ti'n cofio'r geiriau distaw ddwedaist ti?
Dilyn llwybr pen y bryn, cân yr adar yn yr ynn,
Wyt ti'n cofio'r gusan gyntaf gawsom ni?

Cytgan: Wylaf un, mi wylaf ddwy, wylaf dair, mi wylaf fwy,
Wylaf fil o ddagrau hallt o'th gollu di.

- 2 Mynd am dro hyd lan y llyn, cydio llaw a gwasgu'n dynn,
Nid oedd neb ond ti a minnau yn y byd;
Dim ond cwmni mab a merch, ninnau ym mharadwys serch,
Ond cuddiodd cwmwl amser hyn i gyd.

Cytgan

- 3 Trodd y gwanwyn, do, yn haf, daeth i ben y dyddiau braf,
Daeth yr hydref i ddwyn y dail o goed y fro;
Aethost tithau gyda'r dail, ni welaf mwy dy wên ddi-ail,
Ni ddaw neb i'm tywys mwy hyd lwybrau serch.

90 Wyt ti'n Cofio

The musical score for 'Wyt ti'n Cofio' is written in 2/4 time and E major. It consists of three systems of music, each with a vocal line and a piano accompaniment. The first system includes the lyrics 'Wyt ti'n cofio'r tro ar fin y'. The second system includes 'llyn? Y lleu-ad yn ol-au trwy ffig-au yr'. The third system includes 'ynn- Wyt ti'n cofio ad-rych ar y'. Chord symbols E, m, m, A, and B7 are placed above the vocal line. The piano accompaniment features a steady bass line and chords that support the melody.

Alleddf

E m : m B7 E d : E7 **CYTGAN**

sêr? Wyt ti'n cof io'r nos?

A E m : m B7 E m : -

Wyt ti'n cof io, wyt ti'n cof io'r nos?

A E m : m B7 E d : -

Dyw ed i mi, wyt ti'n cof io'r nos?

2 Wyt ti'n cofio eistedd dan y coed?
Cysgodion yr hwyr yn harddach nag erioed –
Wyt ti'n cofio'r cusanau roist i mi?
Wyt ti'n cofio'r nos?

3 Mumur yr awel yn y brigau uwch ben,
Siffrwd y dail yng ngolau'r lleuad wen,
Rhoddaist addewid dy gariad i mi –
Wyt ti'n cofio'r nos?

4 Unig wyf heno yn crwydro min y llyn,
Gan wyllo y lleuad trwy frigau yr ynn,
Daw atgof am y noson honno gynt –
Wyt ti'n cofio'r nos?

91 Y Blewyn Gwyn

Mae'n syndod gymaint o effaith y gall un blewyn bach gwyn gael ar holl fywyd dyn (a benyw) ...

1 Roedd fy wybren yn hollol ddigwmwl
A fi ydoedd brenin y byd
Doedd dim na allwn gyflawni
Ro'n i'n fistar ar bawb yn y stryd
Mi neidiwn yn rhydd dros bob camfa
A rhedwn i gopa pob bryn
Ond torrais fy nghalon rhyw fore
Pan welais y blewyn gwyn ...

Cytgan: O flewyn bach gwyn, o ble daethost ti
I beri'r fath ofid i fachan fel fi?
Sut y mentraist ti allan i ganol y du?
Nid oes flewyn bach arall run lliw â thydi!

2 Ro'n i'n treulio fy nyddiau yn hapus
Ro'n i'n ifanc ac ysgafn fy mron
Yn rhydd fel ehedydd y mynydd
Fel gwylan ar frigyn y don
Dim gwahaniaeth os oedd hi yn hindda
Neu'n bwrw hen wragedd a ffyn
Ond craciodd fy ysbryd y bore
Y gwelais y blewyn gwyn ...

3 Mae ngherddediad yn dechrau arafu
A'm gwaed yn dechrau llifo'n oer
Does dim cymaint o wres yn yr heulwen
Na rhamant yng ngolau y lloer
Mae'r rhychau yn ddfwn yn fy nhalcen
A thannau fy nerfau yn dynn
A'r cyfan am imi ryw fore
Ganfod y blewyn gwyn ...

Cytgan: addasid o "Lili Wen Fach".

92 Y Chwe Chant a Naw

- 1 Canwn wrth gofio'r arloeswyr a fu
Yn agor y cwysi yn y ddaear oer ddu
Am gadw'r ffynhonnau yn lân rhag y baw
Canwn â diolch i'r chwe chant a naw.
- 2 Mor anodd oedd sefyll yn nannedd y storm
A dioddef y gwawdio, y sen a'r ysgorn,
Ond byth nid anghofiwn, beth bynnag a ddaw
Ffydd, cariad a gobaith y chwe chant a naw.
- 3 Daeth y gŵr o Ddeiniolen mor welw ei wedd
A'i ffydd oedd yn darian a'i obaith yn gledd,
Fe gerddodd drwy'r ddrycin, y cenlysg a'r glaw
I gyfarfod a'r ffyddlon, y chwe chant a naw.
- 4 Daeth y cawr o Landdulas i arwain y gad
I agor meddyliau i ryddid ein gwlad,
Gwawdio wnâi'r bradwr, a'r taeg mewn braw
Ond sefyll yn gadarn wnaeth y chwe chant a naw.
- 5 Canwn wrth gofio'r arloeswyr a fu
Yn agor y cwysi yn y ddaear oer ddu
Am gadw'r ffynhonnau yn lân rhag y baw
Canwn â diolch i'r chwe chant a naw.

93 Y Dref a Gerais i Gynt

Musical notation for 'Y Dref a Gerais i Gynt' in 4/4 time, key of Bb. The score consists of four staves of music. Chords are indicated above the notes: Bb, F, Eb, Bb, Eb, Bb, F7, Bb, Eb, Bb, F7, Bb, Bb, F, Cm, F, Bb, F, Eb, Bb, Eb, Bb, F7, Bb.

- 1 Tra bo ynof chwyth
Mi gofiat fi byth
Y dref lle y treuliais fy mebyd gynt,
Sgorio gôl neu ddwy
Ger wal yr hen waith nwy,
A chael hwyl yn y mwg, y niwl a'r gwynt.
Mynd tua thre drwy'r baw,
Am y cyntaf yn y glaw,
Heibio'r carchar a nôl tu cefn i'r Fountain.
Roen nhw'n ddyddiau braf,
Y gaef neu'r haf
Yn y dref a gerais i c'yd.
- 2 Bob bore am saith
Fe ganai corn y gwaith
I alw'r gwagedd o'r Creggan, Y Moor a'r Bogside,
A'u gwyr ar y dôl
Yn gorfod aros ar ôl
A gwarchod y plant oedd eu rhaid.
A phan wasgai'r esgid fach
Roedd jest digon yn y sach
Buost fyw drwy'r c'ledi oll yn dawel
Am fod balchder cryf
Yn cynnal fflam y ffydd
Yn y dref a gerais i c'yd.

3 Roedd 'na fiwsig a chân
Yn alaw'r Derry lân
Fel iaith oedd yn clymu pawb oll yn un,
Ac mi gofïaf baced pae
Cyntaf ar ddydd lau
A minnau wedi tyfu yn ddyn.
Yno dysgais am fyw
Yno clywais am Dduw.
Yno cwrddais i â chymar oes.
Ond ymadael oedd raid
A'r Creggan a'r Bogside
A'r dref a gerais i c'yd.

4 Pan ddychwelais i,
Llifai'r dagrau'n lli
O weld sut y gallent dorri calon tre'.
Gyda'r bidog a'r tanc
A bywyd llawer llanc
Ac ôl y bomiau'n gamedd hyd y lle,
Y milwyr sy' yno mwy
Ger wal yr hen waith nwy
Ac mae'r weiren bigog ddiawl yn codi'n uwch,
Rhed y tanciau drwy'r Bogside
O Dduw be' mae nhw'n 'neud
I'r dref a gerais i c'yd.

5 Y mae'r miwsig yn fud
Ond yn 'i flaen yr aiff ei byd
A'i hysbryd er mor friw sydd heb dorri.
Nid anghofiant y trais
Ond codant eu llais
Am heddwch a rhyddid rhyw yfory.
'R hyn a wnaed a wnaed
'R hyn a gaed a gaed
'R hyn a gollwyd, a gollwyd yn oes oesoedd,
Ond fe ddial yn awr
Am doriad newydd wawr
Yn y dref a gerais i c'yd.

94 Y Dyn Pwysig

Y fi yw'r pen pwys - ig-yn ar Gy-ngor mawr y dre, Y fi sy'n go-sod y
ddeddf i lawr ac yn da-ngos be-di be. Y fi sydd yn y ga-dair beth byn-nag fydd y
pwnc, Dist - ew-ir pob gwrth - ry-fel, dim ond imi gli-rio'n llwnc. O rwy'n
bwys-ig, rwy'n bwys-ig bo-bol bach, y-dw rwy'n bwys-ig, rwy'n
bwys-ig bo-bol bach!

- Y fi yw tad y pwyllgor, mae'r pwyllgor yn blant i mi,
Rwy'n credu mewn Democratiaeth, fy Nematiaeth i,
Mae gen i fys ym mhob rhyw frywes, a phocer ymhob rhyw dân,
Am mai diwedd y gân yw'r geiniog, a'r geiniog yw diwedd y gân.
O! rwy'n bwysig, rwy'n bwysig, bobol bach!
- Rwy'n flaenor yn y capel, rwy'n Ynad ar y fainc,
Mae gen i fab yn New York State, a 'chalet' mas yn Ffrainc,
Rwy'n golofn i'r gymdeithas, yn asgwrn cefn i'r fro
A gwelir pawb yn plygu'u pen pan af i a'r wraig am dro.
O! rwy'n bwysig, rwy'n bwysig, bobol bach!
- Fe'm urddwyd yn yr orsedd, fe'm gwisgwyd mewn gwisg wen,
Taenellwyd blodau o dan fy nhraed, a sebon am fy mhen,
Rwy'n aelod o Lys y Brifysgol, rwy mewn gyda'r BBC,
A chefais air y byddaf toc yn barchus CBE.
O! rwy'n bwysig, rwy'n bwysig, bobol bach!
- Rwy'n aelod o'r Pwyllgor Addysg er 1933,
Rwy'n nabod pob prifathro'n y sir, neu mae nhw'n fy nabod i!
Rwy'n un o'r Seiri Rhyddion, mae 'ngwraig ar yr Inner Whil
Ac mae 'nghyfri banc yn chwyddo bob wythnos, fil wrth fil.
O! rwy'n bwysig, rwy'n bwysig, bobol bach!

95 Yma Mae 'Nghalon

Yn araf

Mae'r gwynt yn y sim-dde yn rhu-o fel llwyr, a'r pis-tyll yn
llo-nydd den ser-baus o rew, Hei car-dod mae'r
Ro-bin a'i ly-gsid bach hy', a lluwch mawr o
ei-ra wth dal-cen y Y-ma mae
ngha-lon, y-ma mae 'nghân; y-ma mae
ngha-lon, y-ma mae nghân.

- 2 Fe chwelir y cwysi gan ddannedd yr og,
A chlywir o'r pellter hen ddeunod y gog,
Cyn hir daw y wennol i'r bondo yn ôl
A'r awel i ddawnsio ar laswellt y ddôl, —
Cytgan
- 3 Mae caeau'r cynhaeaf yn weigion bob un
A'r hen fwan brain a saif wrtho'i hun,
Mae'r ydian yn orlawn gan sgubau yr yd
A'r haul sydd yn machlud yn orchest i gyd,
Cytgan
- 4 Daw hyrddwynt yr Hydref fel cawr dros y bryn
I erlid y tonnau dros wyneb y llyn,
Y dail sydd yn syrthio'n gawodydd o'r coed
I guddio troadau yr hen lwybr troed —
Cytgan

96 Yno yr Wylodd Efe

- 1 Daeth heibio ar dro rhyw ddiwrnod
I grwydro hyd lwybrau ei wlad,
A gwelodd ymarfer y milwyr
Lle gynt y bu preiddiau ei dad,
Ac yno islaw yn y dyffryn
Lle bu'r cartref, yr ysgol a'r Llan,
Fe godai yr argae o goncrid
Ac amdo o ddŵr dros y fan.
- 2 Fe welodd y gwaed ar y muriau
Yn y dre lle bu farw'r ddau,
Ac âi pawb o'r tu arall heibio
Gan ddweud "Arwyn nhw roedd y bai"
Gan na fuont farw mewn rhyfel,
Nid iddynt anrhydedd na chlod,
Onid ffyliaid, dihirod oeddynt?
Onid ffôl ac annheilwng eu nod?
- 3 Gwelodd ddwy fam yn eu dagrau,
Heb neb i'w cysuro hwy,
A gwelodd y plant bach diniwed
Na welai eu tad byth mwy.
Pan aed a'r gweddillion briwedig
I orwedd ym mynwent y plwy'
Dim ond dymaid o bobl yn unig
A fynnai eu harddel hwy.
- 4 Ond draw ar lan afon Menai
Y gwelodd y miloedd ynghyd,
Yn bloeddio taegrogrwydd eu croeso
I'r drefn a'u caethiwodd cyhyd,
Ac yno fe welodd y milwyr
Gyda'r fidog a'r gwn ym mhob llaw
Ac eco'u martsio'n atseinio
Rhwing creigiau Dinorwig draw.

97 Ynys yr Hud

- 1 Rwy'n cerdded y strydoedd a'r heirdion neuaddau,
Ceisiaf d'anghofio, ond rywsut o hyd
Daw imi atgofion am euraid funudau
Gawsom ni draw ar hen Ynys yr Hud.
- 2 Fry yn y nen mae aderyn bach ffri,
O dos â mi yno
Draw, draw ymhell rhag y dyrfa a'i chri,
O, dos â mi yno,
Ac yno caf rodio yng nghwmni'r atgofion
Ar hudol draethau hen Ynys yr Hud.

98 Y Pedwar Cae

- 1 "Beth oedd im rhan?" meddai'r hen wraig yn dawel
"Beth oedd im rhan?" meddai'r hen wreigan drachefn
"Roedd gen i bedwar cae, a phob un oedd yn werthfawr
Ond estron ddaeth a cheisio'u dwyn 'wrthyf fi
Roedd gen i feibion dewr i warchod dros fy meysydd,
Bu farw'r rhain a drylliwyd fy myd", medd hi.
- 2 "Amser maith yn ôl" meddai'r hen wraig yn dawel
"Amser maith yn ôl" meddai'r hen wreigan drachefn
"Bu rhyfel hir, rhaib a thrais a gormes
A'm plant heb fwyd ar fynydd, gweundir a glyn
A'u crio taer yn esgyn hyd y nefoedd
A'r pedwar cae oedd yn goch gan eu gwaed" medd hi.
- 3 "Beth sydd im rhan?" meddai'r hen wraig yn dawel
"Beth sydd im rhan?" meddai'r hen wreigan drachefn
"Mae gen i bedwar cae, ac un sydd mewn caethiwed
Dan estron law a ddaeth i'w dwyn 'wrthyf i
Ond mae plant fy mhlant mor ddewr ag oedd eu tadau
A'r pedwerydd cae ddaw eto yn rhydd" medd hi.

Alaw Tommy Makem
Trosiad Dafydd Iwan

99 Yr Hawl i Fyw Mewn Hedd

EL DERECHO DE VIVIR EN PAZ

- 1 Am yr hawl i fyw yn rhydd
Y canai'r bardd Ho Chi Minh
Taro'r ergyd o Fietnam
Dros bawb o'r ddynol ryw
Ni all yr un gwn ddileu
Y gwys draw yn dy gae
A'r hawl i bobol fyw mewn hedd.
- 2 Indo-Cheina ydyw'r fan
Tu draw i'r cefnfor mawr
Lle ffrwydrant flodau'r tir
A napalm yn lladd yr hil,
Onid ffrwydriad yw'r lloer yn y nen
Sy'n uno'r alwad daer
Am yr hawl i bobol fyw mewn hedd.
- 3 Ewyrth Ho, fe ganwn gân
Sy'n fflam o gariad pur,
Colomen yn ei thŷ
Olewydd ar y pren
Hon yw cân y byd yn grwn
Y gadwyn sy'n ennill y dydd
A'r hawl i'n pobol fyw mewn hedd.

Alaw a geiriau: Victor Jara
Trosiad a threfn: Dafydd Iwan

100 Y 'Steddfod Bei-ling

- 1 Rhowch faneri ar dŷ'r arglwyddi
Rhowch fflags ar do'r tai bach,
Agorwyd drysau'r 'ghetto' i dderbyn yr awel iach,
Rhyddhawyd traed y caethion
Gall pawb 'nawr wneud ei 'thing',
Bydd canu yn y nefoedd
Am fod y Steddfod wedi mynd yn bei-ling.
- 2 Bydd tafardai tref y Steddfod
Oll yn crynu hyd eu sail,
A'r bois yn canu emynau
Cymraeg a Saesneg bob yn ail,
Bydd Pontsian yn taflu'i berlau
Dwyieithog o flaen y moch,
Ond rhaid i'r heniaith gadw'i
Hawlfraint ar englynion coch.
- 3 Bydd yr altos yn llawer hapusach
A mwy cartrefol, yn neno'r dyn,
Gan mai Saesnes oedd Eurydice
Cânt ei chyfarch yn ei hiaith ei hun,
Lliwiwyd peisiau'r orsedd
Yn goch a glas a gwyn,
Ac am adrodd darn o Shakespeare
Rhoddir Gwobr Goffa Llwyd o'r Bryn.
- 4 Bydd Ymryson y Beirdd yn gyflafan
A'r prydydd yn foddfa o chwys,
Wrth geisio cynganeddu
Cwalf a liberti yn llewys ei gryd.
Rhoir y gadair am awdl goffa
I gyngor Rhondda Morgannwg fawr,
Arloeswyr y frwydr dros ryddid
A chwalodd y rhagfuriau i'r llawr.
- 5 Cyfieithwyd Dawns y Blodau
Yn ddawns yr English Rose,
A chaiff y Liverpool Philharmonic
Ganu'n Saesneg ar hyd y nos,
Yr unawd cerdd dant fydd datganiad
O Esgimonel ar alaw Llwyn Onn,
A'r Fedal Ryddiaith am ddeialog
Rhwnge Andy Pandy a Lili Lon.
Pennill 1 eto.

101 Y Wên na Phyla Amser

The musical score is written in 4/4 time. The melody line consists of five staves of music. The guitar accompaniment line consists of four staves of music. The chords indicated above the melody are F, Bb, C, F, Bb, F, C, C7, F, Bb, F, C, F, F7, Bb, F, C, and F. The word 'Cytgan' is written above the third staff of the guitar accompaniment.

- 1 Roedd hwn mor rhydd â'r awel
Yng nghoedwig Esgairgeir,
Yr awel sydd yn chwythu lle y myn,
Ni fedrodd muriau carchar
Gaethiwo'r galon fawr,
Y galon sydd yn curo dan yr ynn.

Cytgan: Y wên na phyla amser
Y fflam na ddiffydd byth,
Mae'r gŵr o Rydcymerau'n fyw i ni;
Y wên na phyla amser
Y fflam na ddiffydd byth
Mae'r gŵr o Rydcymerau'n fyw i ni.

2 Fe welodd hwn ryfeddod
Ar hyd ei filltir sgwâr,
Adroddodd inni chwedlau llon ei hil.
Dangosodd inni fawredd
Gwerin yr erwau gwâr
Rhoes gip i ni ar ryddid yn ei sgîl.

Cytgan

3 O tho i ni gyfrinach
Y weledigaeth fawr,
Rho golsyn bach o'r tân a lysg mor lân,
Fel gallwn ninnau gredu
Fel y credaist ti
A gweled rhyfeddodau'r pethau mawr.

Cytgan



Llyfrau Canu Eraill o'r Lolfa

MABSANT

£1.45


24 o'n caneuon gwerin mwyaf poblogaidd, o *Bugeilio'r Gwenith Gwyn* i *Fflat Huw Puw*, wedi eu trefnu o'r newydd ar gyfer gitâr a llais. Diwyg deniadol, gyda nodiadau hanesyddol. 0 86243 000 3



CANEUON TECWYN IFAN

£1.65

Ugain o ganeuon, hudolus eu tônau, a nerthol eu neges, wedi eu trefnu ar gyfer gitâr a llais fel y gall pawb eu canu a'u mwynhau. 0 904864 92 8



Y BYD GWYRDD

Dafydd Iwan

75c

20 o ganeuon enwocaf Dafydd; trefniant gitâr, gyda lluniau a phregethau. Hanfodol!

CANEUON HAWYS GLYN

£1.25

13 o ganeuon gwreiddiol ar bynciau amrywiol sy'n addas i ysgol, capel ac aelwyd. Trefniant piano 2-law, sol-ffa cyflawn, cordiau gitâr, y geiriau yn Gymraeg a Saesneg a lluniau gan John McNamara. 0 904864 03 0

25 CÂN A CHAROL

Hawys Glyn

£1.85

25 cân wreiddiol ar gyfer ysgol ac aelwyd gyda threfniant cerddorol cyflawn. Dwyieithog ac yn llawn lluniau gan John McNamara.

CANEUON HUW JONES

95c

10 o ganeuon gorau Huw wedi'u trefnu'n llawn ar gyfer piano, llais a gitâr gan Eleri Huws. Lluniau!

CANEUON CHWYLDRO-ADOL

Hefin Elis

65c

Naw o ganeuon gwarthus grŵp anhygoel "Y Chwyldro" — *I'r Gad, Rhaid yw eu Tynnu i Lawr, Mae 'Nghariad yn un Handi*, ac ati.

HEN FALEDI FFAIR

Tegwyn Jones

95c

Casgliad o 16 o faledi'r ganrif ddiwethaf, i gyd yn sôn am ddigwyddiadau cyffrous y dydd. Cerddoriaeth, lluniau leino, torion papur newydd, ffotograffau a nodiadau hanesyddol.

100 O GANEUON YFED

Undeb y Tancwyr

45c

Y casgliad mwyaf cyflawn — a hylaw — erioed o ganeuon o bob math! 0 904864 01 4



— a llawer mwy!

Rhestr gyflawn yn ein Catalog rhad 32-tudalen a anfonir yn rhad ac am ddim gyda throad y post.

Anfona yn awr at:

Y LOLFA, TALYBONT,
CEREDIGION SY24 5HE.

DAFYDD IWAN —mae'r enw ei hunan yn ddigon o gyflwyniad i ganwr mwyaf poblogaidd Cymru ers bron i ugain mlynedd! Mae yr un mor hysbys fel protestiwr a chenedlaetholwr a dyma yn wir gyfrinach ei apêl fel canwr a chyfansoddwr —ei ymrwymiad i neges glir, ddigyfaddawd, daer. Dyma gant o'i ganeuon —yn brawf o'i gyfraniad unigryw fel cerddor a bardd, ac yn drysorfa o ddiddanwch ac ysbrydoliaeth i Gymry am flynyddoedd i ddod.

Pris £1.95

Rhif Llyfr Cymrot Rhyngwladol
0 86243 021 X



Clawr blaen: llun Arvid Parry Jones
Clawr ôl: o lun gan Gwenan